



HM Government

**Ymgynghoriad am
newidiadau a gynigir i
Ddeddf Galluedd
Meddyliol 2005
Cod Ymarfer a
gweithredu'r Trefniadau
Amddiffyn Rhyddid
Gan gynnwys
deddfwriaeth eilaidd y
Trefniadau Amddiffyn
Rhyddid**

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog: Helen Whately AS Y Gweinidog Gwladol ar gyfer Gofal, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	4
Rhagair gan y Gweinidog: Alex Chalk AS Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	5
Rhagair gan y Gweinidog: Vicky Ford AS Gweinidog Plant a Theuluoedd, yr Adran Addysg	6
Cyflwyniad	7
Cyd-destun	7
Crynodeb Gweithredol.....	9
Canllawiau Ymgynghori	12
Cwmpas.....	12
Trosolwg	12
Ymateb i'r Ymgynghoriad	14
1. Adran 1: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod 17	
Prif ddiweddariadau i'r Cod.....	17
Pennod 4: Sut y mae'r Ddeddf yn diffinio gallu unigolyn i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?	18
Pennod 5: Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu pan fydd yn siarad am “fudd gorau”?.....	19
Pennod 6: Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnis i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?	20
Pennod 8: Beth y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?.....	21
Pennod 9: Beth y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Ddirprwyon?	22
Pennod 11: Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	23
Pennod 23: Pa ddulliau amddiffyn sydd ar gael i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain?.....	24
Pennod 25: Pa reolau sy'n llywodraethu mynediad at wybodaeth am unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol?.....	24

Pennod 26: Sut y mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n ymwneud ag unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol?.....	25
2. Adran 2: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli sydd bellach yn cynnwys canllawiau LPS yn y Cod	26
Pennod 3: Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain?	26
Pennod 7: Beth yw rôl y Llys Gwarchod?.....	27
Pennod 10: Beth yw Gwasanaeth yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)?...	29
Pennod 21: Sut y mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc?.....	30
Pennod 22: Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?.....	32
Pennod 24: Beth yw'r ffyrdd gorau i ddatrys anghytundebau ac anghydfodau am faterion a gynhwysir yn y Ddeddf?	33
Cwestiynau am ddiweddariadau i'r canllawiau presennol yng Nghod yr MCA.....	34
3. Adran 3: Y penodau newydd sy'n cynnwys canllawiau LPS yn y Cod.....	36
Pennod 12: Beth yw amddifadu o ryddid?	36
Pennod 13: Beth yw proses yr LPS yn gyffredinol?	37
Pennod 14: Beth yw rôl y Corff Cyfrifol?	40
Pennod 15: Beth yw rôl y Person Priodol?.....	40
Pennod 16: Beth yw'r Aseidiadau a Phenderfyniadau ar gyfer yr LPS?	41
Pennod 17: Beth yw Ymgynghoriad yr LPS?.....	42
Pennod 18: Beth yw rôl y Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP)?	43
Pennod 19: Beth yw Adran 4B, a sut mae'n cael ei defnyddio?	43
Pennod 20: Sut y monitrir ac yr adroddir am system yr LPS?	44
4. Adran 4: Rheoliadau'r LPS	47
5. Adran 5: Rhoi'r Cod ar waith a gweithredu'r LPS	48
Cynnwys a Strwythur y Cod.....	48
Gweithredu'r LPS.....	50



Rhagair gan y Gweinidog: Gillian Keegan AS

Y Gweinidog Gwladol ar gyfer Gofal, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno system iechyd a gofal deg i bawb sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hanfodol y mae'n eu darparu. Mae hyn yn cynnwys y mecanweithiau rydym yn eu defnyddio i amddiffyn yr hawliau dynol mwyaf sylfaenol: yr hawl i ryddid.

Mewn rhai achosion, mae'n angenrheidiol i amddifadu unigolyn sydd heb y galluedd perthnasol o'i ryddid er mwyn darparu gofal neu driniaeth hanfodol i'r unigolyn hwnnw. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud â'r gofal a'r parch mwyaf i'r unigolyn hwnnw a'i hawliau. Cafodd y Trefniadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu cyflwyno â'r nod o sicrhau bod trefniadau diogelu yn gymwys pan fydd hyn yn digwydd mewn cartref gofal neu ysbyty.

Fodd bynnag, mae'r DoLS yn orgymhleth ac wedi cael trafferth i ddarparu'r trefniadau diogelu angenrheidiol ers i Goruchaf Lys Gorllewin Swydd Caer ehangu cylch gorchwyl y system. Mae pobl wedi wynebu toriadau o'u hawliau dynol oherwydd yr ôl-groniad awdurdodi sydd wedi datblygu o'r DoLS a'r diffiniad ehangach o amddifadu o ryddid.

Gwnaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 newidiadau i'r ddeddfwriaeth fydd, cyn gynted y cânt eu gweithredu, yn diwygio'r DoLS a'u disodli gan y Trefniadau Diogelu Rhyddid (LPS). Bydd yr LPS yn amddiffyn pobl 16 oed neu'n hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth ac sydd heb y gallu meddyliol i gydsynio â'r trefniadau hyn.

Mae'r LPS wedi'u cynllunio i fod yn system symlach, llyfnach sy'n rhoi'r unigolyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid wrth galon y broses gwneud penderfyniadau. Rydym yn dymuno i'r LPS i fod yn fwy integredig i gynlluniadau iechyd a gofal bob dydd, ac i leihau baich yr asesu i sefydliadau sy'n gweinyddu'r trefniadau diogelu. Mae rolau a phrosesau statudol newydd yn rhoi mwy o bwys ar ddymuniadau a theimladau pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, ac i farn y rheini sy'n gofalu amdanynt ac yn poeni amdanynt. Bydd yr LPS yn darparu trefniadau diogelu penodol pan fydd amddifadu o ryddid yn digwydd mewn unrhyw leoliad yn Lloegr ac yng Nghymru.

Gan weithredu ar adborth gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu uno'r cyfarwyddyd LPS i mewn i God y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd y cynllun LPS felly yn cael ei ffurfio'n lawn gan egwyddorion yr MCA. Ochr yn ochr â'r Cod newydd, rydym hefyd yn cyhoeddi dogfennau drafft ychwanegol, sy'n amlinellu, yn fanwl, sut rydym yn meddwl y dylai LPS gael ei weithredu. Mae hyn yn cynnwys chwech set drafft o reoliadau, gwybodaeth am hyfforddi gweithlu, manyleb data arfaethedig ar gyfer adrodd cenedlaethol, ac Asesiad effaith wedi'i ddiweddarau.

Hoffwn i ddiolch yn bersonol i'r arbenigwyr, sefydliadau a phobl sydd wedi neu a allai fod wedi profi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol sydd wedi cyfrannu at ddrafftio'r cyfarwyddyd hwn a'n gwaith i roi ar waith hyd yn hyn. Y fwyaf o adborth a dderbyniwn, y gorau oll fydd y system derfynol. Felly rwy'n gwahodd pawb, gan gynnwys y rheini sydd ag arbenigedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac, yn hollbwysig, pobl sydd wedi neu a allai fod wedi profi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd y llywodraeth yn ystyried pob barn a dderbyniwn yn ofalus, cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch sut y bydd yr LPS yn cael ei weithredu.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed wrth gynifer ohonoch â phosibl.



Rhagair gan y Gweinidog: Tom Pursglove AS

[Yr Is-ygrifennydd Gwladol Seneddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#)

Mae ein bywydau'n llawn penderfyniadau, o'r rhai rydym yn eu gwneud bob dydd am bethau fel beth i'w wisgo neu ei fwyta, i benderfyniadau achlysurol a allai newid bywyd am faterion fel sut i reoli buddsoddiad, pa driniaeth feddygol i'w chael, neu ble i fyw.

Ers ei weithredu yn 2007, mae'r MCA wedi chwarae rôl bwysig i rymuso pobl y gall fod angen cymorth arnynt i wneud y penderfyniadau hyn, neu sy'n brin o'r galluedd i wneud hynny ac sy'n gofyn i eraill wneud penderfyniadau er eu budd pennaf. Mae hefyd yn galluogi pobl sydd â galluedd i baratoi ar gyfer adeg pan y gallent fod â phrinder galluedd yn y dyfodol. Mae Cod Ymarfer y Ddeddf wedi bod yn anhepgor i'r grymuso hwn, gan amlinellu ymarfer gorau i ymarferwyr a chynnig cyfarwyddyd ymarferol ar sut mae'r Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd.

Rwy'n ymwybodol iawn fod y Cod yn awr dros 13 mlwydd oed, a fod llawer wedi symud ymlaen ers hynny - deddfwriaeth arall, cyfraith achosion, terminoleg, strwythurau sefydliadol, ac mae ymarfer da wedi datblygu dros y cyfnod hwn.

Mae'r amser yn iawn felly i ddiweddarau'r Cod i adlewyrchu'r newidiadau hyn, ac rwy'n falch iawn i lansio'r ymgynghoriad hwn ar God drafft newydd gyda fy nghydweithwyr, y Gweinidog Gwladol ar gyfer Gofal ac Iechyd Meddwl a'r gweinidog ar gyfer Plant a Theuluoedd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n gilydd ar y ddrafft hwn sydd, yn ogystal â diweddarau'r penodau galluedd meddyliol cyffredinol rwy'n gyfrifol amdanynt, yn ymgorffori deunydd newydd yn benodol ar y mesurau LPS newydd, y bydd y Gweinidog ar gyfer

Gofal ac lechyd Meddwl yn eu gweithredu. Rydym yn cytuno y bydd sefydlu cyfarwyddyd LPS yn y Cod yn helpu i gyfosod yr ymarferion LPS newydd ag egwyddorion trosfwaol yr MCA a'i wneud o'r defnydd mwyaf i ddarllenwyr.

Mae llawer o waith yn y cefndir wedi bod er mwyn cyrraedd y fan hon. Yn 2019 ymgwymerodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder â 'Galwad am Dystiolaeth', i gasglu barn gychwynnol rhanddeiliaid ar ble roedd angen diweddarau'r Cod. Ers hynny, mae fy swyddogion wedi gweithio trwy'r rhain â gweithgor o arbenigwyr ar draws sectorau.

Hoffwn i ddiolch i'r llawer o bobl sydd eisoes wedi cyfrannu eu hamser ac arbenigedd yn anhunanol i'r arolwg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam hanfodol at wella'r Cod ymhellach, a byddwn i'n eich annog yn gryf i ymateb.



Rhagair gan y Gweinidog: Will Quince AS

[Y Gweinidog Plant a Theuluoedd, yr Adran Addysg](#)

Fel gweinidog ar gyfer Plant a Theuluoedd, fy ngweledigaeth ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yw eu bod yn cyflawni'n dda ac yn arwain bywydau hapus a bodlon. Bydd yr LPS yn darparu trefniadau diogelu hanfodol i bobl 16 ac 17 oed y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid fel rhan o'u gofal a thriniaeth, ac sydd ddim yn gallu cydsynio i'r trefniadau hyn.

Mae'r Llysoedd wedi penderfynu trwy gyfraith achosion nad yw rhieni yn gallu cydsynio i'r hyn fyddai fel arall yn amddifadu o ryddid ar ran eu plentyn cyn gynted a'i fod yn cyrraedd 16 oed. Mae hyn yn cydnabod er bod y rhieni yn chwarae rôl allweddol mewn cynorthwyo gwneud penderfyniad am eu plentyn, mae o'r pwys mwyaf i gadw hawliau'r unigolyn ifanc ei hun yn y canol, gan sicrhau cael awdurdodiad cyfreithiol penodol.

Bydd yr LPS yn rhoi mwy o bwyslais ar bersbectif a phrofiad yr unigolyn a amddifadwyd o'i ryddid, a phwysigrwydd yr egwyddor o weithredu er budd pennaf yr unigolyn ifanc ar gyfer penderfyniadau gofal a thriniaeth. Bydd yr LPS yn cyflwyno dyletswydd benodol i ymgynghori â'r unigolyn, a'r rheini sy'n ymddiddori yn ei les, i sefydlu beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn am drefniadau a gynigir. Bydd hyn yn cryfhau lleisiau'r unigolyn dan ystyriaeth, a'u rhieni, gofalwyr a theuluoedd.

Rwy'n ymwybodol ein bod yn gofyn llawer o'r gweithlu plant ac na fydd hyn yn drawsnewidiad hawdd a syml, ond mae'r newid hwn yn dangos anghenrheidrwydd llwyr i ddiogelu annibyniaeth a hawliau dynol yn unol ag egwyddorion yr MCA.

O fewn yr Adran Addysg, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cydweithwyr ar draws adrannau llywodraeth, Llywodraeth Cymru a'r sector gofal ac iechyd i sicrhau bod y system yn barod ar gyfer gweithredu llwyddiannus. Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn amhrisiadwy i sicrhau bod y system hon yn ein galluogi i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Wyn Jones', is centered on the page. The signature is written in a cursive style with a horizontal line at the end.

Cyflwyniad

Cyd-destun

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Pwrpas Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yr MCA) yw amddiffyn a grymuso pobl a all fod â phrinder galluedd meddyliol ar hyn o bryd i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal a thriniaeth. Mae hefyd yn galluogi pobl sydd â gallu i baratoi am adeg pan y gallant fod â phrinder gallu yn y dyfodol.

Mae'r MCA yn berthnasol yn Lloegr ac yng Nghymru. Mae rhannau o'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Loegr yn ogystal â Chymru, ac mae adrannau eraill yn berthnasol i Loegr yn unig. Bydd y fersiwn Gymraeg hon o'r ddogfen ymgynghori yn ymdrin â dogfennau a chanllawiau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am ba rannau o'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i Gymru yn yr isadran Canllawiau Ymgynghori isod.

Amddifadu o Ryddid

Mae Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn gwarantu'r hawl i ryddid ac yn darparu na ddylai unrhyw un gael eu hamddifadu o ryddid ar sail fympwyol. Mae'n rhaid i unrhyw amddifadu o ryddid gael ei wneud yn unol â gweithdrefn a ragnodir gan y gyfraith ac mae'n rhaid gwneud y mesurau diogelu priodol.

Canfu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn 2004 – *HL yn erbyn Y Deyrnas Unedig* - nad oedd y system gyfreithiol yn Lloegr a Chymru'n amddiffyn pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio i'w trefniadau gofal a thriniaeth yn ddigonol, fel a fynnwyd gan yr hawl i ryddid (Erthygl 5).

Yn sgil hynny, cyflwynwyd y Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) a daethant i rym yn 2009 drwy gyflwyno darpariaethau newydd a ychwanegwyd at yr MCA gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Eu bwriad oedd sicrhau bod gan unigolyn sy'n cael ei asesu neu sydd o dan drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, ac nad ydynt yn gallu cydsynio i'r trefniadau hynny, fynediad at y mesurau diogelu angenrheidiol.

Ym mis Mawrth 2014, sefydlodd yr Uchaf Lys y 'Prawf Asid' ar gyfer ystyr amddifadu o ryddid gwrthrychol drwy'r penderfyniad a elwir yn "Cheshire West". Mae hyn yn datgan bod unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio i drefniadau ar gyfer eu gofal a'u triniaeth yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn wrthrychol os:

1. byddant yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus;
2. na fyddant yn rhydd i adael

Oherwydd y dyfarniad hwn, cynyddodd y nifer o achosion a atgyfeiriwyd gan ysbytai a chartrefi gofal i'r broses DoLS yn Lloegr o tua 14,000 yn 2013/14 i 264,000 yn 2019/20 gan greu ôl-groniad o geisiadau ar gyfer awdurdodau lleol.

Yn ogystal, yn ei adroddiad craffu ôl-ddeddfwriaethol yn 2014, canfu Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr MCA bod y ddeddfwriaeth yn "fiwrocraidd" ac yn "rhy gymhleth" ac nad oedd y mesurau diogelu'n aml yn cael eu defnyddio o gwbl. Adolygodd Comisiwn y Gyfraith y DoLS wedi hynny. Argymhellodd y dylid diddymu'r DoLS a'i ddisodli fel mater "o frys mawr".

Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Mawrth 2018. Cyflwynwyd yr LPS o ganlyniad i hynny gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 (yr MC(A)A).

Roedd y llywodraeth wedi gobeithio gweithredu'r LPS yn llawn erbyn mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y broses o weithredu'r LPS yn llwyddiannus fel bod y system newydd yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen. Rydym yn cydnabod heb amser digonol i baratoi, ni fydd eu gweithredu'n llwyddiannus. Oherwydd effaith pandemig Covid-19 ar y sectorau a'r gweithwyr proffesiynol y bydd gofyn iddynt i roi'r diwygiadau pwysig hyn ar waith, rydym wedi gorfod ailystyried ein nod i roi'r LPS ar waith erbyn mis Ebrill. I gael mwy o wybodaeth am weithredu'r LPS, gweler isod.

Y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)

Bydd yr LPS yn disodli'r DoLS fel y system sy'n awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid er mwyn darparu gofal neu driniaeth i unigolyn sydd â phrinder galluedd meddyliol perthnasol, yn Lloegr a Chymru. Er bod gan yr LPS yr un pwrpas cyffredinol â'r DoLS, mae'r system newydd yn wahanol yn ôl dyluniad, mewn sawl ffordd.

Mae'r system newydd wedi'i dylunio i fod yn symlach a bydd yr unigolyn yn ganolbwynt i'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd yr LPS yn cyflwyno dyletswydd benodol i ymgynghori â'r unigolyn, a'r rhai hynny sy'n ymddiddori yn eu lles, i sefydlu beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn am drefniadau a gynigir. Bydd y rhai hynny sy'n agos at yr unigolyn hefyd yn gallu'u cynrychioli a'u cynorthwyo drwy rôl 'Person Priodol' newydd. Fel arall, gall pobl gael eu cynrychioli a'u cefnogi gan Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) a fydd yn amddiffyn eu hawliau drwy gydol y broses. Yn ogystal, bydd hawliau pobl sy'n ganolbwynt i'r achosion mwyaf cymhleth yn cael eu hystyried a'u cadarnhau gan y rôl 'Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol' newydd.

Mae egwyddorion craidd yr MCA yn ganolbwynt i'r dyluniad a gynigir ar gyfer LPS. Bydd hyn yn helpu i alinio ymwybyddiaeth ac arfer galluedd meddyliol ymhellach ar draws gwahanol leoliadau a swyddi proffesiynol. Bydd yr LPS yn ehangu mesurau diogelu i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Bydd hyn yn symleiddio prosesau sydd eisoes yn bodoli ac yn gwella mynediad at fesurau diogelu i bobl ifanc. Er enghraifft, ni fydd angen penderfyniad gan y Llys Gwarchod ym mhob achos mwyach.

Bydd yr LPS yn cynnwys ystod eang o leoliadau heblaw am ysbytai a chartrefi gofal, gan amddiffyn pobl sy'n derbyn gofal neu driniaeth, er enghraifft, yn eu cartrefi'u hunain neu mewn llety preifat. Ni fydd angen penderfyniad fel arfer gan y Llys Gwarchod mwyach ar

gyfer achosion amddifadu o ryddid sy'n digwydd yn y lleoliadau hyn. Bydd hyn yn gwneud mynediad i fesurau diogelu'n haws, ac yn gyflymach, i fwy o bobl.

Mae'r system newydd wedi'i dylunio i integreiddio'n well â fframweithiau cyfreithiol perthnasol eraill. Y bwriad yw bod arfer LPS yn dod yn rhan o asesiadau a chynlluniau gofal iechyd a chymdeithasol prif ffrwd, gan gynnwys cynllunio gofal a chymorth Deddf Gofal 2014. Bydd yr integreiddiad hwn yn gwneud y broses gyffredinol yn symlach ar gyfer yr unigolyn ac yn haws ar gyfer awdurdodau lleol drwy leihau dyblygu.

Bydd gan Gyrrff y GIG rôl mewn trefnu asesiadau ac awdurdodi trefniadau bellach. Bydd hyn yn helpu i rannu'r baich gweinyddol a'r biwrocratiaeth sydd wedi datblygu o dan y DoLS.

Bydd nifer yr asesiadau sydd eu hangen i awdurdodi amddifadu o ryddid hefyd yn lleihau o chwech i dri, ac mewn rhai achosion bydd awdurdodau lleol yn gallu adnewyddu awdurdodiadau heb fod rhaid iddynt aildechrau'r broses bob tro.

Crynodeb Gweithredol

Cod Ymarfer

Cafodd yr MCA ei weithredu ynghyd â Chod Ymarfer a luniwyd i gefnogi'r Ddeddf â chanllawiau ymarferol, statudol, gan esbonio sut mae'r Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd a chynnig enghreifftiau o arfer gorau i ofalwyr ac ymarferwyr. Mae angen diweddarau'r Cod Ymarfer nawr am ddau reswm allweddol.

Yn gyntaf, bu deddfwriaeth a chyfraith achos newydd, newidiadau o ran trefn a therminoleg, a datblygiadau mewn ffyrdd o weithio ac arfer da ers i'r MCA ddod i rym yn 2007.

Yn ail, mae cynllun yr LPS newydd yn golygu bod angen newidiadau i'r Cod. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn deall ac yn defnyddio egwyddorion yr MCA i broses yr LPS.

Rydym hefyd wedi penderfynu cynhyrchu un Cod Ymarfer cynhwysfawr i sicrhau bod egwyddorion yr MCA yn cael eu sefydlu'n gadarn yn yr LPS o'i gyflwyniad.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'y Cod' yn yr ymgynghoriad hwn yn golygu'r Cod Ymarfer drafft, ar y cyd a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Wrth baratoi'r Cod ar gyfer ymgynghoriad, rydym wedi:

- cynnal galwad am dystiolaeth
- ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr
- gofyn am safbwyntiau gan dros 100 o randdeiliaid wrth gyd-gynhyrchu adrannau LPS y Cod

- cynnal cyfarfodydd â phobl a all fod wedi'u heffeithio gan yr LPS i sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu eu profiadau bywyd. Roedd hyn yn cynnwys pobl â dementia, anabledau dysgu a niwed i'r ymennydd.

Nid yw'n ofynnol i ni ymgynghori ar y rheoliadau. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cyhoeddi'r rhain gyda'r ymgynghoriad i ofyn am farn ynghylch manylion polisi pob set o reoliadau. Mae'r rheoliadau drafftio yn arwydd o fwriad y polisi yn unig, a gallent newid cyn y fersiwn derfynol a gyflwynir gerbron y Senedd. Felly nid ydym yn gofyn am sylwadau ar ffurfio'r rheoliadau.

Rheoliadau'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Bydd yr MC(A)A yn cael ei hategu gan chwe set o reoliadau. Mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn fod yn dderbyniol gan y weithdrefn Seneddol berthnasol cyn y gellir gweithredu'r LPS.

Maent yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer:

- y meini prawf ar gyfer penodi a swyddogaethau Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)
- y meini prawf ar gyfer hyfforddi a chymeradwyo Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP)
- pwerau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) a'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) i fonitro ac adrodd am weithredu'r LPS
- y gofynion ar gyfer pobl sy'n cyflawni'r asesiadau a'r penderfyniadau, a diffiniad cysylltiad â chartref gofal i'r rhai hynny sy'n cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi
- y trefniadau pontio i alluogi'r LPS a'r DoLS i weithredu ochr yn ochr yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r LPS
- y diwygiadau i ddeddfwriaethau eraill o ganlyniad i'r MC(A)A

Gweithredu'r LPS

Mae gweithredu'r LPS yn rhaglen ddiwygio fawr a bydd yn cynnwys newidiadau mawr ar gyfer y system gofal iechyd a chymdeithasol, a'r bobl sy'n dibynnu arni. Disgwylir i randdeiliaid allweddol yn y system hon gymryd rôl ragweithiol i sicrhau parodrwydd yn unol â'r rheoliadau, y Cod a chanllawiau ychwanegol gan y llywodraeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector yn cael ei gefnogi a'i fod yn barod ar gyfer hyn. Yn benodol, bydd angen i gyrrff â dyletswyddau statudol i awdurdodi'r trefniadau (Cyrrff Cyfrifol) a darparwyr gofal sy'n ymwneud â'r awdurdodiadau LPS ddeall y newidiadau y mae'r LPS yn eu cyflwyno yn ystod y cyfnod cyn eu gweithredu. Mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn gael yr hyfforddiant a'r systemau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'u swyddogaethau'n effeithiol o dan yr LPS unwaith y mae'n mynd yn fyw. Rydym

yn deall bod hwn yn faes cymhleth o gyfraith ac arfer, ac mae angen mwy er mwyn cefnogi'r gweithredu. Mae'r Cod yn cynnig canllawiau cynhwysfawr, statudol am LPS, ond rydym yn credu y bydd angen mwy o ganllawiau mewn ffurfiau eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am weithredu'r LPS yn Adran 5 y ddogfen hon.

Rydym wedi gwneud y penderfyniad i ohirio gweithredu'r LPS. Roeddem wedi gobeithio gallu gweithredu'r LPS yn llawn erbyn mis Ebrill 2022. Rydym yn cydnabod heb amser digonol i baratoi, ni fydd eu gweithredu'n llwyddiannus. Oherwydd effaith y pandemig ar y sectorau a'r gweithwyr proffesiynol y bydd gofyn iddynt i roi'r diwygiadau pwysig hyn ar waith, rydym wedi gorfod ailystyried y hwn.

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysol a fydd yn para o leiaf 17 wythnos. Rydym yn disgwyl bydd ymatebion yn fanwl iawn, a bydd yn cymryd amser i weithio drwy'r ymatebion hynny a sicrhau ein bod yn eu hystyried, er mwyn cael LPS yn gywir. Byddwn yn pennu dyddiad newydd ar gyfer gweithredu'r LPS pan fyddwn yn cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad.

Canllawiau Ymgynghori

Cwmpas

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r diweddariadau a gynigir i God Ymarfer yr MCA ac yn cyflwyno deddfwriaeth eilaidd yr LPS. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau i'r gweithlu sy'n ymwneud â gweithredu'r LPS. Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Bydd yr LPS yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed, ac mae'r Adran Addysg (DfE) wedi bod yn rhan o ddatblygiad y system newydd hon. Bydd y tair Adran yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu'r LPS yn llwyddiannus.

Mae'r Cod yn berthnasol yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru. Gofynnwn felly i randdeiliaid o'r ddwy wlad ymateb i'r adrannau sy'n ymwneud â'r Cod. Bydd llywodraeth y DU yn trafod unrhyw ganlyniadau o'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â Chymru gyda Llywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad ar wahân ar rai agweddau penodol o ddyluniad yr LPS yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth eilaidd, sy'n benodol i Gymru, ar gyfer AMCPau ac IMCAau, asesiadau a phenderfyniadau, a monitro ac adrodd. Os byddwch yn gweithio neu'n ymgysylltu â system gofal iechyd cymdeithasol Cymru, ymatebwch i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru hefyd ar faterion penodol a gynhwysir gan reoliadau drafft Cymru. Mae rheoliadau llywodraeth y DU ar gyfer darpariaethau pontio a diwygiadau canlyniadol yn berthnasol i Loegr a Chymru. Mae'r pedwar set arall o reoliadau'n berthnasol yn Lloegr.

Mae'r fersiwn Gymraeg hon o'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys dogfennau a chanllawiau a fydd yn berthnasol i Loegr a Chymru'n unig. I gael gwybodaeth am ddogfennau a chanllawiau sy'n berthnasol i Loegr yn unig, gweler y fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori hon sydd ar gael trwy [dudalen ymgynghori GOV.UK](https://gov.uk/guidance/child-protection-act-2015).

Trosolwg

Rhennir y ddogfen ymgynghori hon i chwe adran. Mae hyn er mwyn gwahanu'r deunyddiau amrywiol yr ymgynghorir yn eu cylch ac i wneud y ddogfen yn hawdd i lywio i ymatebwyr sy'n dymuno rhoi adborth am ddogfennau unigol, neu am rannau penodol o'r Cod.

Mae'r Cod newydd a gynigir yn un ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys canllawiau presennol ac wedi'u diweddarau o'r Cod presennol a chanllawiau LPS newydd. Rydym yn deall y bydd gan rai ymatebwyr ddiddordeb arbennig yn niweddariadau ehangach yr MCA ac eraill yng nghanllawiau'r LPS newydd.

Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym felly wedi rhannu penodau'r Cod i dair adran sydd wedi'u grwpio.

- Mae Adran 1 yn cynnwys y diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli o fewn Cod Ymarfer yr MCA
- Mae Adran 2 yn cynnwys y diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli sydd bellach yn cynnwys canllawiau LPS newydd
- Mae Adran 3 yn cynnwys y penodau newydd sy'n cynnwys canllawiau'r LPS yn unig.

Dylai rhannu'r penodau i adrannau helpu ymatebwyr i roi adborth ar y meysydd y mae ganddynt y mwyaf o ddiddordeb neu brofiad ynddynt.

Mae'n werth nodi oherwydd bod yr adrannau hyn wedi'u grwpio gan eu maes polisi, nid yw'r penodau ym mhob adran bob amser yn adlewyrchu trefn gronolegol y penodau yn y Cod. Mae pob adran o'r ddogfen ymgynghori hon yn esbonio'n glir pa benodau y mae'n eu cynnwys.

Gellir dod o hyd i fanylion manwl am yr hyn mae pob adran yn ei gynnwys isod:

Adran 1: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod

Mae Adran 1 yn cynnwys penodau 4 i 6, 8 i 9, 11, 23, a 25 i 26 y Cod. Mae'r penodau hyn yn bodoli yng Nghod presennol yr MCA, ond yn y drafft newydd a gynigir, maent yn cynnwys diweddariadau i'r canllawiau Cod sydd eisoes yn bodoli. Yn gyffredinol, **nid** yw'r penodau hyn yn cynnig canllawiau am yr LPS.

Gellir dod o hyd i gwestiynau am y diweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod ar ddiwedd Adran 2 ac yn Adran 5. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Adran 2: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli sydd bellach yn cynnwys canllawiau LPS yn y Cod

Mae Adran 2 yn cynnwys penodau 3, 7, 10, 21 i 22, a 24 Cod Ymarfer yr MCA. Mae'r penodau hyn yn bodoli yng Nghod presennol yr MCA, ond yn y drafft newydd a gynigir, maent yn cynnwys diweddariadau i'r canllawiau Cod sydd eisoes yn bodoli a chanllawiau newydd sy'n ymwneud â'r LPS.

Mae Adran 2 y ddogfen ymgynghori'n cynnwys cwestiynau sy'n benodol i benodau (cwestiynau 1 i 3) am ganllawiau'r LPS newydd, y gellir dod o hyd iddynt drwy'r holl adran. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y penderfyniadau polisi a wnaed wrth ddatblygu'r Cod. Nid oes gan bob pennod Cod gwestiwn cyfatebol. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC).

Ar ddiwedd Adran 2, mae hefyd set o gwestiynau ehangach cwestiynau (4 i 7) ar y diweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod presennol. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r holl ddiweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol a restrir yn Adran 1 ac Adran 2, felly ystyriwch **bob** diweddariad wrth ateb. Yn gyffredinol,

nid yw cwestiynau 4 i 7 yn ymwneud â'r LPS. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Adran 3: Y penodau newydd sy'n cynnwys canllawiau LPS yn y Cod

Mae Adran 3 y ddogfen ymgynghori'n cynnwys penodau 12 i 20 y Cod. **Nid** yw'r penodau hyn yn bodoli yng nghod presennol yr MCA, ac maent yn cynnig canllawiau newydd am yr LPS yng Nghod newydd yr MCA a gynigir.

Mae Adran 3 y ddogfen ymgynghori'n cynnwys cwestiynau sy'n benodol i benodau cwestiynau (8 i 16) am y canllawiau LPS newydd, y gellir dod o hyd iddynt drwy gydol yr adran. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y penderfyniadau polisi a wnaed wrth ddatblygu'r Cod. Nid oes gan bob pennod Cod gwestiwn cyfatebol. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r DHSC.

Adran 4: Rheoliadau drafft yr LPS

Mae Adran 4 yn cynnwys gwybodaeth am reoliadau drafft yr LPS sydd yn berthnasol yn Lloegr ac yng Nghymru. Nid yw pedwar rheoliad yr LPS arall wedi'u rhestru yma, gan eu bod yn berthnasol yn Lloegr yn unig. I gael gwybodaeth am reoliadau'r LPS sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig, edrychwch â'r fersiwn Saesneg y ddogfen ymgynghori.

Adran 5: Rhoi'r Cod ar waith a gweithredu'r LPS

Mae adran 5 yn cynnwys y Cod Ymarfer cyfan (17 ac 18) a gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithredu'r LPS. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r DHSC yn ogystal â'r MoJ.

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Amcan yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau bod yr adolygiadau i'r Cod yn adlewyrchu datblygiadau yn y ddeddfwriaeth a'r arfer orau ers iddo gael ei gyhoeddi yn 2007, a sicrhau bod y canllawiau LPS newydd yn y Cod a rheoliadau'r LPS yn glir ac yn darparu mesurau diogelu priodol. i'r rhai sydd eu hangen ar ôl eu gweithredu. Nod y Cod yw grymuso pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac amddiffyn eu hawliau dynol gan roi'r gofal a'r parch mwyaf iddynt.

Mae cyflawni'r amcanion hyn yn gofyn am gynrychiolaeth gref o safbwyntiau o ar draws y sector, gofalwyr teuluol ac, yn bwysicaf oll, gan y rhai hynny â phrofiad bywyd. Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn galluedd meddyliol, sy'n cael eu heffeithio, neu sy'n adnabod rhywun sy'n cael eu heffeithio gan y diweddariadau a gynigir i'r Cod a'r LPS i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Hawdd eu darllen

I wneud cynnwys y Cod yn haws ei gyrchu i bob cynulleidfa, rydym wedi cynhyrchu dau lyfryn cryno, hawdd eu darllen. Mae un llyfryn yn grynodedd hawdd ei ddarllen o'r canllawiau MCA ehangach yn y Cod nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r LPS. Mae'r llyfryn arall yn grynodedd hawdd ei ddarllen o'r canllawiau yn y Cod sy'n berthnasol yn benodol i'r LPS. Mae'r llyfrynau cryno hawdd eu darllen hyn yn seiliedig ar y crynodebau o benodau yn y Cod llawn.

Bydd llyfryn cryno hawdd ei ddarllen o ganllaw ehangach yr MCA yn y Cod ar gael trwy [dudalen ymgynghori GOV.UK](#).

Bydd llyfryn cryno hawdd ei ddarllen o ganllaw yr LPS yn y Cod ar gael trwy [dudalen ymgynghori GOV.UK](#).

I wneud yr ymgynghoriad yn haws ei gyrchu i bob cynulleidfa, rydym hefyd wedi cynhyrchu dogfen ymgynghori hawdd ei darllen a fydd ar gael trwy [dudalen ymgynghori GOV.UK](#). Mae hon yn fersiwn gyddwysedig o'r ddogfen ymgynghori hon, sy'n canolbwyntio ar brofiadau personol pobl yn hytrach na chwestiynau polisi penodol iawn. Credwn y bydd cael set wahanol o gwestiynau ehangach yn y ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen yn helpu pobl sydd â neu a allai fod â phrofiad personol eu hunain o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i ddweud wrthym am eu profiadau a'u safbwyntiau personol. Bydd yr adborth hwn yn ein helpu i wella'r Cod a chanllawiau eraill, a sicrhau ei fod yn adlewyrchu senarios bywyd go iawn.

Gall pobl sy'n dymuno ymateb i'r cwestiynau ymgynghori hawdd eu darllen dynnu ar y llyfrynnau cryno hawdd eu darllen, neu unrhyw un o'r dogfennau eraill a gyhoeddir, fel pwyntiau cyfeirio. Mae unrhyw un a phawb sydd am ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn rhydd i ymateb i unrhyw gwestiwn neu gwestiynau, o'r naill ddogfen ymgynghori. Hoffem iddynt ymgysylltu â'r ymgynghoriad ym mha fodd bynnag sy'n gweithio orau iddynt.

Gwybodaeth Allweddol:

Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal am 17 wythnos o Ddydd Llun, Mawrth 17 2022.

Ymholiadau:

Am unrhyw ymholiadau am ymateb i'r ymgynghoriad, cysylltwch â: lps.cop@dhsc.gov.uk.

Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau arolwg ar-lein. Gellir dod o hyd iddo ar [dudalen ymgynghori GOV.UK](#).

Bydd yr arolwg ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg.

Bydd arolwg hawdd ei ddarllen gyda chwestiynau hawdd eu darllen hefyd ar gael. I gael mwy o wybodaeth am yr arolwg hawdd ei ddarllen, gweler y ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen.

Mae'r arolwg ar-lein yn caniatáu i ymatebwyr gadw ymateb drafft a dychwelyd i'r arolwg yn nes ymlaen. Mae defnyddio'r arolwg ar-lein yn ein helpu'n fawr i ddadansoddi'r ymatebion, gan alluogi ystyried y materion a godir ym mhob cwestiwn yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Rydym yn argymhell eich bod yn:

- darllen y ddogfen ymgynghori
- canolbwyntio ar y cwestiynau sy'n ymwneud â meysydd rydych yn fwyaf profiadol ynddynt neu y mae gennych ddiddordeb penodol ynddynt
- ystyried peidio ag ateb cwestiynau os nad ydynt yn berthnasol i chi, neu os nad oes gennych farn amdanynt
- cyfeirio at y dogfennau perthnasol neu benodau'r Cod y cyfeirir atynt yn y cwestiwn
- ymateb i'r cwestiynau gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein.

Pwyntiau i'w hystyried wrth ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r cwestiynau a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd drwy drafodaethau blaenorol â chynrychiolwyr o'r sector a defnyddwyr gwasanaeth. Mae arddulliau'r cwestiynau'n amrywio mewn natur o gwestiynau eang sy'n ymwneud â'r Cod cyfan i gwestiynau sy'n ymwneud â manylion polisi penodol. Wrth ymateb i gwestiwn penodol, gofynnwn eich bod yn sicrhau bod eich ateb yn berthnasol i'r mater a godir gan y cwestiwn. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adborth a roddir gennych yn cael ei ystyried yn y cyd-destun ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Mae'r Cod yn darparu canllawiau i ystod eang o bobl, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, yr unigolyn, a'u teulu a ffrindiau, ond mae'n bosibl na fydd yn cynnwys pob sefyllfa bosibl a all fod yn berthnasol. Gofynnwn eich bod yn ystyried hyn wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Os byddwch yn credu bod bwlch allweddol yn y Cod drafft neu y gellid esbonio'r Cod yn well gyda senario enghreifftiol, gallwch gyflwyno'r wybodaeth hon yng nghwestiwn 18.

Nid oes rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn ar [dudalen ymgynghori GOV.UK](#).

Preifatrwydd Data

Wrth ymateb i'r cwestiynau, ceisiwch osgoi cynnwys gwybodaeth a fydd yn nodi pwy ydych chi, fel eich cyfenw. Efallai y bydd ymatebion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellid eu defnyddio i'ch adnabod yn cael eu dileu.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y datganiad preifatrwydd ar [dudalen ymgynghori GOV.UK](#).

1. Adran 1: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod

Mae Adran 1 yn cynnwys penodau 4 i 6, 8-9, 11, 23, a 25 i 26 y Cod. Mae'r penodau hyn yn bodoli yng Nghod presennol yr MCA, ond yn y drafft newydd a gynigir, maent yn cynnwys diweddariadau i ganllawiau'r Cod sydd eisoes yn bodoli. Yn gyffredinol, **nid** yw'r penodau hyn yn cynnig canllawiau am yr LPS.

Gellir dod o hyd i gwestiynau am y diweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod ar ddiwedd Adran 2 yn Adran 5. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r MoJ.

Prif ddiweddariadau i'r Cod

Rydym wedi gwneud golygiadau cyffredinol amrywiol drwy'r Cod cyfan i'w ddiweddarau a sicrhau ei fod yn darllen yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diwygiadau i groesgyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol sydd wedi dod i rym ers i'r MCA gael ei gweithredu.
- diwygiadau sy'n cyfeirio at newidiadau mewn arfer ers i'r MCA ddod i rym, er enghraifft o ran newidiadau technolegol.
- diweddariadau lle mae canllawiau, gweithdrefnau neu derminoleg sefydliadau eraill wedi newid.
- newidiadau golygyddol i wella eglurder, strwythur, neu gysondeb y penodau.
- adolygu senarios a chreu rhai newydd.
- rydym wedi gwneud newidiadau i adlewyrchu arfer da fel yr amlinellwyd i ni gan randdeiliaid drwy'r Alwad am Dystiolaeth, grwpiau gwaith rhanddeiliaid a'r Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol.

Nodir y diweddariadau allweddol a gynigir i bob pennod isod.

Pennod 4: Sut y mae'r Ddeddf yn diffinio gallu unigolyn i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Crynodeb

- 1.1. Mae Pennod 4 yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn diffinio 'unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad' ac yn nodi prawf clir ar gyfer asesu a oes gan yr unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol.

Diweddariadau a gynigir

- 1.2. Rydym wedi newid y testun i wneud y gwahaniaeth rhwng ystyried ac asesu gallu'n eglur. Nod hyn yw ceisio esbonio'r rhagdybiaeth o allu'n well, drwy gydbwyso'r heriau tebyg o beidio â rhuthro i wneud asesiadau gallu, ond hefyd i beidio â methu ag asesu gallu pan fo rheswm i wneud hynny (paragraff 4.5 i 4.6 y Cod).
- 1.3. Rydym wedi newid y drefn y mae prawf yr asesiad gallu wedi'i nodi, fel y dylai aseswr ystyried yn gyntaf a yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad, ac os na, a oes nam neu amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd sy'n achosi eu hanallu i wneud y penderfyniad. Nod y newid hwn yw osgoi rhagdybiaeth awtomatig na all yr unigolyn wneud penderfyniad oherwydd eu cyflwr (paragraff 4.8 i 4.9).
- 1.4. Rydym wedi ychwanegu testun i ddweud y gallai ffactorau sy'n gysylltiedig â chefnidir diwylliannol ddylanwadu ar ffordd unigolyn o feddwl, ei ymddygiad neu sut mae'n cyfathrebu (er enghraifft paragraffau 4.18, 4.31 a 4.82).
- 1.5. Rydym wedi cynnwys testun newydd sy'n rhoi canllawiau ar 'weithredu gweithredol' a sut y gallai hyn effeithio ar yr asesiad gallu (paragraff 4.35 i 4.38).
- 1.6. Rydym wedi cynnwys testun newydd i roi canllawiau ar gyfer sut i fynd i'r afael â gwneud penderfyniadau pan fo gallu unigolyn yn amrywio (paragraff 4.50 i 4.57).
- 1.7. Rydym wedi ychwanegu testun i roi canllawiau am asesiadau gallu ôl-weithredol a sut y mae'r sefyllfaoedd hyn yn wahanol i asesiadau gallu cyfoes (paragraff 4.100 ymlaen).

Pennod 5: Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu pan fydd yn sôn am "fudd gorau"?

Crynodeb

- 1.8. Mae Pennod 5 yn esbonio'r hyn y mae'r MCA yn ei olygu pan fydd yn sôn am weithredu er budd gorau rhywun sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain, ac yn disgrifio'r rhestr wirio a nodir yn yr MCA ar gyfer sefydlu'r hyn sydd er y budd gorau i unigolyn.

Diweddariadau a gynigir

- 1.9. Rydym wedi ychwanegu testun i bwysleisio bod penderfynu beth sydd er y budd gorau i unigolyn yn berthnasol yn unig ar ôl i bob cam ymarferol gael eu cymryd i gynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad o dan sylw (paragraff 5.1).
- 1.10. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro'r berthynas rhwng gwneud penderfyniadau budd gorau ac asesu a bodloni anghenion o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall y tu hwnt i'r MCA (paragraff 5.8).
- 1.11. Yng ngoleuni penderfyniad yr Uchaf Lys yn *Aintree yn erbyn James*, rydym wedi diwygio'r testun i'w wneud yn glir bod budd gorau'n cynnwys nid yn unig materion meddygol unigolyn, ond hefyd eu buddiannau cymdeithasol a seicolegol (paragraff 5.10).
- 1.12. Rydym wedi ehangu'r testun am 'Pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniad?' i helpu i nodi'n glir pwy yw'r unigolyn hwnnw ac i osgoi camddeall cyfrifoldebau (paragraff 5.15 i 5.23).
- 1.13. Rydym wedi diwygio'r testun i'w wneud yn glir bod penderfyniad budd gorau'n benderfyniad rhwng y dewisiadau sydd ar gael (paragraff 5.24 i 5.26).
- 1.14. Fel yr amlinellwyd yn *Aintree yn erbyn James*, rydym wedi egluro os na fydd triniaeth cynnal bywyd yn driniaeth sy'n rhesymol i'w rhoi, ni all y Ddeddf ei gwneud hi'n ofynnol bod y meddyg sy'n rhoi'r driniaeth yn ei darparu (paragraff 5.53).
- 1.15. Yn dilyn penderfyniad yr Uchaf Lys yn *Parthed Y* a chanllawiau arfer dilynol y Llys Gwarchod, rydym wedi diwygio'r canllawiau o ran pryd y mae'n rhaid dod â phenderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd gerbron y Llys Gwarchod, i ddweud ei bod yn ofynnol yn unig pan fo gwahaniaeth o ran barn neu y mae'r ffordd ymlaen yn gyfartal iawn (paragraff 5.59).
- 1.16. Yn unol â chyfraith achosion, rydym wedi ychwanegu pwyslais pellach ar bwysigrwydd ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Mae hyn yn cynnwys

egluro bod dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn gallu bod yn benderfynodol mewn penderfyniad budd gorau ac mewn achosion lle mae'r penderfyniad yn wahanol i'r un y byddai'r unigolyn wedi'i wneud, bydd angen cyfiawnhad clir (paragraff 5.68).

- 1.17. Yng ngoleuni *Winspear yn erbyn Ysbytai Dinas Sunderland*, rydym wedi egluro bod methu ag ymgynghori â rhywun sy'n ymddiddori'n lles yr unigolyn pan fo'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny'n golygu na all y gwneuthurwr penderfyniad ddibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5 (paragraff 5.88).
- 1.18. Rydym wedi egluro y dylid ystyried datganiadau ymlaen llaw a Chynlluniau Gofal Ymlaen Llaw fel tystiolaeth o ddymuniadau'r unigolyn pan fo penderfyniad budd gorau'n cael ei wneud (er nad ydynt yn gyfreithiol rwymol) (paragraff 5.77).
- 1.19. Rydym wedi cyflwyno testun ar 'gynlluniau gofal yn y dyfodol' a luniwyd i unigolyn sydd â phrinder gallu perthnasol, gan bwysleisio y dylai helpu i hysbysu penderfyniad budd gorau ac y dylai'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'i lunio ddilyn egwyddorion gwneud penderfyniadau budd gorau'r MCA cyn belled ag y bo'n bosibl i sicrhau bod y cynllun yn gallu helpu i lywio'r penderfyniad yn gadarn (paragraff 5.95 a 5.96).
- 1.20. Rydym wedi cynnwys canllawiau newydd am gofnodi penderfyniadau budd gorau am ofal a thriniaeth (paragraff 5.102 i 5.108).
- 1.21. Rydym wedi cynnwys canllawiau newydd am gofnodi penderfyniadau eiddo a materion personol a wneir gan atwrneiod a dirprwyon (paragraff 5.109 i 5.111).

Pennod 6: Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei chynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Crynodeb

- 1.22. Mae Pennod 6 yn esbonio sut mae'r MCA yn amddiffyn pobl sy'n darparu gofal neu driniaeth i unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio i'r penderfyniad neu'r cam gweithredu sy'n cael eu gwneud.

Diweddariadau a gynigir

- 1.23. Rydym wedi cysylltu â chanllawiau newydd yn y bennod budd gorau am gofnodi penderfyniadau budd gorau. Eu nod yw ceisio sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried yr holl faterion angenrheidiol i allu dibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5 yr MCA (amrywiol, gan gynnwys paragraff 6.42 i 6.44).

- 1.24. Rydym wedi cynnwys canllawiau newydd am benderfyniadau i gyfyngu ar gyswllt unigolyn ag eraill (paragraff 6.20 i 6.22).
- 1.25. Rydym wedi nodi canllawiau, sy'n gysylltiedig â phenodau'r Llys Gwarchod a budd gorau, o ran pryd y dylid gofyn i'r llys i wneud penderfyniad gofal iechyd neu driniaeth (amrywiol, yn enwedig paragraff 6.32 i 6.37).
- 1.26. Rydym wedi diweddarau canllawiau am dalu am nwyddau a gwasanaethau (paragraff 6.86 i 6.91).

Pennod 8: Beth y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

Crynodeb

- 1.27. Mae Pennod 8 yn esbonio sut mae pobl sy'n dymuno cynllunio ymlaen ar gyfer y posibilrwydd y byddant â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain yn y dyfodol yn gallu rhoi Atwrneiaeth Arhosol (LPAau) i unigolion a enwir i wneud penderfyniadau penodol ar eu rhan, a sut y dylai atwrneiod a benodir o dan LPA weithredu.

Diweddariadau a gynigir

- 1.28. Rydym wedi ychwanegu canllawiau am bwy na all fod yn ddarparwr tystysgrif (paragraff 8.11).
- 1.29. Rydym wedi darparu gwybodaeth am ganslo LPA (paragraff 8.12).
- 1.30. Rydym wedi ychwanegu canllawiau am oblygiadau penodi atwrneiod ar y cyd, neu ar y cyd ac yn unigol (paragraff 8.19 i 8.23).
- 1.31. Rydym wedi ychwanegu canllawiau am bwy y dylid darparu'r LPA ar eu cyfer unwaith y mae wedi'i chofrestru (paragraff 8.28).
- 1.32. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro statws atwrneiaeth arhosol dramor yn Lloegr a Chymru (paragraff 8.30).
- 1.33. Rydym wedi cynnwys canllawiau am sut y gall rhywun wirio dilysrwydd LPA (paragraff 8.38).
- 1.34. Rydym wedi ychwanegu canllawiau pellach am gyfarwyddiadau a'r hyn sy'n well gan yr unigolyn mewn LPA (paragraff 8.32 i 8.33).

- 1.35. Rydym wedi egluro'r cyfyngiadau ar y math o benderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud, gan gynnwys penderfyniadau gofal a thriniaeth amrywiol a chreu Ewyllys (paragraff 8.45, 8.62 i 8.63 a 8.69 i 8.74).
- 1.36. Rydym wedi nodi'r hyn ddylai digwydd os bydd atwrnai'n teimlo nad yw'n gallu gwneud penderfyniad gofal neu driniaeth (paragraff 8.65).
- 1.37. Rydym wedi nodi'r hyn yw rôl atwrnai wrth baratoi cynllun gofal i'r rhoddwr (paragraff 8.66).
- 1.38. Rydym wedi diweddarau canllawiau o ran pryd y gall atwrneiod wneud rhoddion neu daliadau tebyg ar ran y rhoddwr (paragraff 8.49 i 8.59).
- 1.39. Rydym wedi nodi'r hyn ddylai ddigwydd pan fo angen gwneud penderfyniad sy'n berthnasol i les personol y rhoddwr yn ogystal â'u heiddo a'u materion personol (paragraff 8.78 i 8.81).
- 1.40. Rydym wedi ychwanegu testun i ddweud y gallai ffactorau sy'n gysylltiedig â chefnidir diwylliannol ddylanwadu ar ffordd unigolyn o feddwl, ymddwyn neu gyfathrebu (er enghraifft paragraffau 4.18, 4.81 a 4.843).

Pennod 9: Beth y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Ddirprwyon?

Crynodeb

- 1.41. Mae Pennod 9 yn disgrifio rôl dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd â phrinder gallu i wneud y penderfyniadau hynny ac mae'n esbonio sut y maent yn cael eu goruchwyllo.

Diweddariadau a gynigir

- 1.42. Yn dilyn y penderfyniad yn *Parthed Lawson, Mottram a Hopton (penodi dirprwyon lles personol)*, rydym wedi diwygio'r testun am benodi dirprwyon lles personol i adlewyrchu dull y llys i bennu a ddylid penodi un ohonynt, a'r angen i gydbwysu amddiffyn yr unigolyn â hyrwyddo eu hannibyniaeth (paragraff 9.13).
- 1.43. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro'r hyn ddylai digwydd os bydd gwrthdaro buddiannau, gan gynnwys pan fo'r dirprwy yn aelod o'r teulu neu'n ddirprwy proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys pan fo angen gwneud cais i'r llys o bosibl (amrywiol, gan gynnwys paragraffau 9.17 ac 9.39 i 9.43).
- 1.44. Rydym wedi diwygio'r testun i ddarparu canllawiau mwy eglur o ran pryd y gall dirprwyon ddirprwyo tasgau (paragraff 9.46 i 9.47).

- 1.45. Rydym wedi ychwanegu testun i ddarparu canllawiau ynghylch pryd y gall dirprwyon ddefnyddio cyllid yr unigolyn i wneud taliadau am roddion neu ofal teulu (paragraff 9.58 i 9.59).
- 1.46. Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth ynghylch sut y mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) yn goruchwyllo dirprwyon, gan gynnwys rôl yr OPG wrth ddarparu diogelwch (paragraff 9.58 i 9.67).

Pennod 11: Beth y mae'r Deddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Crynodeb

- 1.47. Mae Pennod 11 yn esbonio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn os bydd rhywun yn dymuno gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol i ddod i rym pan fyddant â phrinder gallu i wrthod y driniaeth benodol.

Diweddariadau a gynigir

- 1.48. Rydym wedi diwygio'r testun i ychwanegu eglurder ynghylch ystyried a yw cais i'r Llys Gwarchod yn ofynnol os oes amheuaeth am fodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (paragraff 11.62 ac 11.78 i 11.81).
- 1.49. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro sut y mae datganiadau a chynlluniau gofal ymlaen llaw yn wahanol i benderfyniadau ymlaen llaw (paragraff 11.82 i 11.83).

Pennod 23: Pa ddulliau amddiffyn sydd ar gael i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain?

Crynodeb

- 1.50. Mae Pennod 23 yn disgrifio'r gwahanol asiantaethau sy'n bodoli i helpu sicrhau bod pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod.

Diweddariadau a gynigir

- 1.51. Rydym wedi cynnwys tabl sy'n amlinellu'r gwahanol fathau o gam-drin (paragraff 23.5).
- 1.52. Rydym wedi nodi deddfwriaeth a gweithdrefnau diogelu ychwanegol y dylai'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phobl sydd â phrinder gallu fod yn gyfarwydd â nhw (paragraff 23.6 i 23.9 a 23.37).

Pennod 25: Pa reolau sy'n llywodraethu mynediad i wybodaeth am unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol?

Crynodeb

- 1.53. Mae Pennod 25 yn crynhoi sut y mae cyfreithiau am ddiogelu data a rhyddid gwybodaeth yn ymwneud â darpariaethau'r MCA.

Diweddariadau a gynigir

- 1.54. Rydym wedi ailstrwythuro dechrau'r bennod i nodi sut y gall rhywun weld gwybodaeth ar ran rhywun arall pan fo gallu ganddynt, ac yn dilyn hynny, sefyllfaoedd lle y gall, neu na all, rywun weld gwybodaeth ar ran rhywun arall pan fo'r unigolyn hwnnw â phrinder gallu perthnasol (paragraff 25.1 i 25.12).
- 1.55. Rydym wedi egluro bod atwrnai neu ddirprwy'n gallu gofyn i weld gwybodaeth am yr unigolyn y maent yn ei gynrychioli os bydd yn eu helpu i wneud y penderfyniadau y mae ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i'w gwneud (paragraff 25.13 i 25.18).
- 1.56. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro bod gweithiwr proffesiynol yn datgelu gwybodaeth i eraill, fel rhan o'r broses o sefydlu'r hyn sydd er y budd gorau i rywun, yn debygol o fod yn gyfreithiol os bydd ei hangen er mwyn i'r gweithiwr proffesiynol ymgynghori'n ystyrllon. Rydym hefyd wedi egluro bod datgelu gwybodaeth i eiriolwyr statudol yn debygol o fod yn gyfreithiol os bydd angen i'r eiriolwr gael eu rhyddhau o'u swyddogaethau statudol (paragraff 25.21 i 25.25).
- 1.57. Rydym wedi cynnwys testun yn nodi'r hawl bod yn rhaid i'r OPG a'r IMCA gael mynediad i gofnodion iechyd o dan yr MCA (paragraff 25.25 i 25.27).

Pennod 26: Sut y mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n ymwneud ag unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol?

Crynodeb

- 1.58. Mae Pennod 26 yn rhoi canllawiau am sut y mae'r MCA yn nodi mesurau diogelu a rheolaethau penodol am ymchwil sy'n ymwneud â, neu'n sy'n gysylltiedig â, phobl sydd â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan.

Diweddariadau a gynigir

- 1.59. Rydym wedi diwygio'r bennod i'w gwneud yn glir bod darpariaethau ymchwil penodol yr MCA yn berthnasol pan fo'n ymwneud ag unigolyn sydd â phrinder gallu, ond bod darpariaethau cyffredinol yr MCA hefyd yn bwysig. Mae'n rhaid i

ymchwilydd ddilyn egwyddorion yr MCA wrth ymgysylltu â rhywun â nam neu amhariad ar weithrediad eu meddwl neu ymennydd, gan gynnwys eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac asesu'u gallu os bydd angen (paragraff 26.7 i 26.8).

- 1.60. Rydym wedi ychwanegu cyfeiriad at y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i'w wneud yn eglur bod yn rhaid i ymchwilydd gydymffurfio â'r mesurau diogelu y maent yn eu cynnwys wrth brosesu data personol (paragraff 26.17 a 26.73).
- 1.61. Rydym wedi egluro nad yw'r penderfyniad i rywun gymryd rhan mewn ymchwil yn benderfyniad budd gorau, ond bod ymchwilydd yn defnyddio'r darpariaethau ymchwil yn yr MCA i ddilyn dymuniadau a theimladau'r unigolyn wrth benderfynu a ddylai'r unigolyn gymryd rhan (paragraff 26.16 a 26.27, 26.67).
- 1.62. Rydym wedi cynnwys canllawiau pellach ar rôl yr ymgynghorai, gan gynnwys egluro nad rôl yr ymgynghorai yw rhoi cydsyniad i ymchwilydd, ond cynghori'r ymchwilydd ynghylch a yw amcanion yr ymchwil yn unol â'r hyn y maent yn credu y byddai'r unigolyn sydd â phrinder gallu wedi'i ddymuno. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw gwneud y penderfyniad terfynol (paragraff 26.40 i 26.62).

2. Adran 2: Diweddariadau a gynigir i'r penodau sydd eisoes yn bodoli sydd bellach yn cynnwys canllawiau LPS yn y Cod

Mae Adran 2 yn cynnwys penodau 3, 7, 10, 21 i 22 a 24 y Cod. Mae'r penodau hyn yn bodoli yng Nghod presennol yr MCA, ond mae'r drafft newydd a gynigir yn cynnwys diweddariadau i ganllawiau'r Cod sydd eisoes yn bodoli a chanllawiau newydd sy'n ymwneud â'r LPS.

Mae Adran 2 yn cynnwys cwestiynau sy'n benodol i benodau cwestiynau (1 i 3) am ganllawiau newydd yr LPS, y gellir dod o hyd iddynt drwy'r adran gyfan. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y penderfyniadau polisi a wnaed wrth ddatblygu'r Cod. Nid oes gan bob pennod Cod gwestiwn cyfatebol ond mae lle yng nghwestiwn 20 i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r DHSC.

Ar ddiwedd Adran 2, mae hefyd set o gwestiynau ehangach cwestiynau (4 i 7) ar y diweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod presennol. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r holl ddiweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod presennol a restrir yn Adran 1 ac Adran 2, felly ystyriwch **bob** diweddariad wrth ateb. Yn gyffredinol, **nid** yw cwestiynau 4 i 7 yn ymwneud â'r LPS. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r MoJ.

Pennod 3: Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain?

Crynodeb

- 2.1. Mae Pennod 3 yn esbonio sut mae'r MCA yn sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo i wneud eu penderfyniadau eu hunain cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae hefyd yn esbonio'r pwysigrwydd o gadw'r unigolyn yn ganolbwynt i'r broses gwneud penderfyniadau drwy gydol yr LPS a sut y gellir gwneud hyn. Mae hefyd yn esbonio hawliau gwybodaeth, gan amlinellu pa wybodaeth sydd ar gael i Berson Priodol ac IMCA yr unigolyn yn ystod proses yr LPS.

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol

- 2.2. Gan adlewyrchu egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau o gynorthwyo gwneud penderfyniadau, rydym wedi cryfhau'r geiriad i roi mwy o bwyslais ar gynorthwyo gwneud penderfyniadau a grymuso

pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, gan barhau i fod o fewn cwrpas yr MCA (drwy gydol y bennod).

- 2.3. Rydym wedi ychwanegu testun yn ysgogi gweithwyr proffesiynol i fod yn ymwybodol o'r risg o orfodaeth neu ddylanwad gormodol gan rywun sy'n cynorthwyo unigolyn naill ai i wneud penderfyniad neu i fynegi eu safbwynt fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau budd gorau (paragraff 3.18).

Canllawiau newydd ar gyfer yr LPS

- 2.4. Mae'n hanfodol bod y canllawiau yn y Cod yn cefnogi gweithwyr proffesiynol ac eraill i gadw'r unigolyn yn ganolbwynt i broses yr LPS a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud sy'n ymwneud â'r LPS. Er na all y Cod ddarparu canllawiau cam wrth gam ar gyfer pob sefyllfa, ei nod yw amlygu'r egwyddorion craidd a nodir yn yr MCA y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol proses yr LPS. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd pob cam ymarferol i gynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad.
- 2.5. Siaradom â phobl sydd â neu allai fod â phrofiad bywyd, ag ystod o gefndiroedd, am y ffyrdd gorau i'w helpu i deimlo'n rhan o'r broses a'r pethau y dylai ymarferwyr wybod wrth weithio â rhywun sydd â phrinder galluedd meddyliol perthnasol. Mae hyn wedi hysbysu'r canllawiau yn y bennod hon o'r Cod yn fawr.

Pennod 7: Beth yw rôl y Llys Gwarchod?

Crynodeb

- 2.6. Mae Pennod 7 yn disgrifio rôl y Llys Gwarchod, a sefydlwyd o dan yr MCA, i wneud penderfyniadau neu ddatganiadau mewn achosion lle nad oes unrhyw ffordd arall o ddatrys mater sy'n effeithio ar unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud y penderfyniad o dan sylw.
- 2.7. Mae hefyd yn esbonio sut y gall yr unigolyn, eu Person Priodol, IMCA, neu unrhyw un arall wneud cais i'r Llys, er enghraifft i herio awdurdodiad LPS o dan adran 21ZA yr MCA neu ddefnyddio awdurdod cyfreithiol a roddir gan Adran 4B yr MCA:

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol

- 2.8. I fod yn glir, rydym wedi gwahanu'r bennod flaenorol am y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys i ddwy bennod ar wahân.
- 2.9. Rydym wedi diweddarau ac ailstrwythuro'r disgrifiad o'r Llys, gan gynnwys y disgrifiad o'i bwerau i wneud penderfyniadau a datganiadau, yn ogystal â phenderfyniadau a datganiadau na all eu gwneud (paragraff 7.3 i 7.17).

- 2.10. Rydym wedi diweddarau adrannau sy'n rhoi canllawiau am bryd y mae'n rhaid neu y gallai achosion fynd i'r Llys, ar gyfer achosion eiddo a materion personol yn ogystal ag achosion iechyd a lles. Mae'r diweddariad hwn yn dilyn penderfyniad yr Uchaf Lys yn *Parthed Y* a chanllawiau arfer y Llys Gwarchod wedi hynny (paragraff 7.18 i 7.30).
- 2.11. Rydym wedi ychwanegu testun newydd sy'n egluro'r rhwymedigaeth i ystyried pa mor hir sy'n rhesymol i'w dreulio i geisio dod i gytundeb cyn gwneud cais i'r Llys, i sicrhau nad yw unrhyw oedi'n effeithio ar les yr unigolyn yn negyddol (paragraff 7.30).
- 2.12. Rydym wedi cynnwys canllawiau am bwy ddylai gyflwyno cais i'r Llys, sut y gallant wneud cais a sut y bydd y Llys yn ymdrin â'r achos (paragraff 7.42 i 7.57).

Canllawiau newydd ar gyfer yr LPS

- 2.13. Gellir gwneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod sy'n ymwneud ag agweddau penodol o awdurdodiad LPS o dan adran 21ZA yr MCA. Yn ogystal, gellid gwneud cais mewn perthynas â phroses asesu'r LPS neu'r defnydd o adran 4B.
- 2.14. Un o nodau allweddol yr LPS yw symleiddio'r broses awdurdodi a lleihau'r ddibyniaeth ar y Llys Gwarchod. Nod yr LPS fydd ceisio cyflawni hyn drwy alluogi pob achos i gael eu hystyried gan Gorff Cyfrifol, yn hytrach na gofyn bod rhai achosion yn cael eu hystyried gan y Llys. Bydd cyflwyniad rôl y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol hefyd yn golygu lle mae trefniadau'n groes i ddymuniadau a theimladau'r unigolyn, bydd goruchwyliaeth ychwanegol yn cael ei darparu.

Cwestiwn

1. Mae'r Cod yn nodi na ddylid gwneud ceisiadau i ystyried achosion amddifadu o ryddid yn unig i'r Llys yn gyffredinol. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

'Ni ddylai Cyrff Cyfrifol fod yn gwneud ceisiadau i'r Llys fel mater o drefn, unwaith y gweithredir yr LPS.

- Cytuno'n gryf

- Cytuno i rai graddau
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno i rai graddau

Pennod 10: Beth yw Gwasanaeth yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)?

Crynodeb

- 2.15. Mae Pennod 10 yn disgrifio rôl yr Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol a benodir o dan yr MCA i helpu pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau arwyddocaol ac mae'n nodi pryd y dylid eu cyfarwyddo. Mae'n esbonio cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yng Nghymru i sicrhau bod digon o IMCAau ar gael i fodloni'r gofynion yn eu hardal.
- 2.16. Mae'r bennod hefyd yn disgrifio rôl yr IMCA o dan yr LPS.

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol

- 2.17. Rydym wedi cynnwys testun ar y rhyngwyneb rhwng IMCAau a mathau eraill o eiriolaeth, gan gynnwys y ddyletswydd statudol i gyfarwyddo eiriolwr o dan ddeddfwriaeth arall megis y Ddeddf Gofal (paragraff 10.118 i 10.121).
- 2.18. O dan yr MCA, cyfarwyddir IMCAau gan sefydliadau a elwir bellach yn 'y sefydliad sy'n cyfarwyddo'r IMCA' (paragraff 10.61). Mae hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n penodi IMCAau o dan yr LPS, a elwir yn 'Gyrff Cyfrifol'.
- 2.19. Yn unol â diwygiadau a wnaed i'r bennod am anghytundebau ac anghydfodau, rydym wedi egluro'r canllawiau am yr adeg pan fydd yr IMCA yn anghytuno â'r gwneuthurwr penderfyniad a phan fod ganddynt bryderon na fyddant yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chydymffurfio â'r MCA (paragraff 10.66 i 10.73).

Canllawiau newydd o dan yr LPS

- 2.20. Rôl yr IMCA o dan yr LPS yw cynrychioli a chynorthwyo unigolyn, neu gynorthwyo Person Priodol, drwy gydol proses awdurdodi'r LPS a thra bod yr awdurdodiad ar waith. Er bod gan IMCAau rôl hefyd o dan adrannau 37, 38 a 39 yr MCA, mae'r ffocws ar yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori'n benodol ar rôl gwasanaethau IMCA yng nghyd-destun yr LPS.

Pennod 21: Sut y mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc?

Crynodeb

- 2.21. Mae Pennod 21 yn esbonio'r rhannau hynny o'r MCA a all fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn berthnasol i gyfreithiau eraill sy'n effeithio arnynt.
- 2.22. Mae hefyd yn esbonio sut bydd yr LPS yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed ac yn amlinellu'r defnydd o Gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (Cynlluniau EHC) yn Lloegr, a Chynlluniau Datblygu Unigol (IDPau) yng Nghymru, a sut y maent yn rhyngweithio â'r MCA.

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol

- 2.23. Rydym wedi cyfeirio at ddeddfwriaeth ychwanegol y dylai oedolion sy'n cefnogi pobl ifanc 16 ac 17 oed fod yn gyfarwydd â hi (paragraff 21.3 i 21.4).
- 2.24. Rydym wedi egluro'r fframweithiau cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phobl ifanc 16 ac 17 oed, sy'n esbonio bod gweithwyr proffesiynol yn gallu dewis pa drefn i'w defnyddio, ond dylent fod yn glir ynghylch pa un y maent yn ei defnyddio (paragraff 21.1 i 21.20).
- 2.25. Rydym wedi ychwanegu testun i egluro'r rhyngberthynas rhwng y Llys Teulu/Adran Deuluol yr Uchaf Lys a'r Llys Gwarchod, yn ogystal â rhwng Tribiwnlysoedd Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) a'r Llys Gwarchod (paragraff 21.21 i 21.25).

Canllawiau newydd ar gyfer yr LPS

- 2.26. Yn wahanol i DoLS, bydd yr LPS yn berthnasol i unrhyw unigolyn 16 oed neu'n hŷn. Yn *Parthed D*, nodwyd na all cydsyniad rhieni awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ar ran eu plentyn 16 neu 17 oed sydd â phrinder galluedd meddyliol perthnasol. Mae'r bennod hon yn nodi'r canllawiau ar y rhyngweithio rhwng yr LPS a materion a deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Cwestiwn

2. Bydd gan lawer o unigolion 16 ac 17 oed sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS anghenion addysgol arbennig cymhleth neu anghenion dysgu ychwanegol cymhleth ac felly bydd ganddynt hefyd gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHC), yn Lloegr, neu Gynllun Datblygu Unigol (IDP), yng Nghymru.

Dylai angen i ymarferwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau sy'n ymwneud â'r broses LPS ddeall sut mae'r LPS yn rhyngweithio â'r ddarpariaeth addysgol, iechyd a gofal arbennig a nodir yng nghynllun EHC yr unigolyn, neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn IDP yr unigolyn. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am gynlluniau EHC ac IDPau yng Nghod Ymarfer SEND neu God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ni fydd y dogfennau hyn yn cynnwys canllawiau sy'n benodol berthnasol i'r LPS eto).

Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu a gefnogir fel arall gan yr awdurdod lleol trwy wasanaethau plant ac sy'n ddarostyngedig i drefniadau LPS yn Lloegr, mae'r LPS hefyd yn rhyngweithio â Deddf Plant 1989. Mae'r LPS hefyd yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'n bwysig bod gwneuthurwyr penderfyniadau'n deall y rhyngweithiadau hyn.

Pa mor eglur yw'r canllawiau yn y Cod yn esbonio'r rhyngweithio rhwng yr LPS a deddfwriaeth a chynllunio perthnasol arall ar gyfer unigolion 16 ac 17 oed?

- Eglur iawn
- Eithaf eglur
- Ddim yn eglur nac yn aneglur
- Eithaf aneglur
- Aneglur iawn

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno (300 gair)

Pennod 22: Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

Crynodeb

2.27. Mae Pennod 22 yn esbonio sut mae'r MCA yn berthnasol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng yr LPS a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA).

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol

2.28. Rydym wedi diweddaru'r bennod i gynnwys diweddariadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl gan gynnwys gwarcheidiaeth (drwyddi draw, yn enwedig paragraffau 22.11 i 22.17).

- 2.29. Rydym wedi diweddarau'r bennod i gynnwys diwygiadau i'r MHA gan gynnwys Gorchmynion Triniaeth Gymunedol (CTOau) (drwyddi draw, yn enwedig paragraffau 22.18 i 22.22).
- 2.30. Rydym wedi cynnwys testun newydd am Eiriolwyr Annibynnol ar Iechyd Meddwl (paragraff 22.49 i 22.51).

Canllawiau newydd ar gyfer yr LPS

- 2.31. Mae'r canllawiau a nodir yn y Cod yn esbonio sut y dylai gwneuthurwyr penderfyniadau wneud penderfyniadau i ddefnyddio'r LPS neu'r MHA i amddifadu'r unigolyn o'i ryddid yn yr ysbyty tra'n derbyn triniaeth am anhwylder iechyd meddwl. Mae hyn yn dilyn y penderfyniad yn AM yn erbyn SLAM. Mae hefyd yn nodi sut y dylid defnyddio'r rhyngwyneb yn y gymuned.
- 2.32. Cyhoeddodd y Llywodraeth bapur gwyn a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus am ddiwygio rhai agweddau o'r MHA sy'n berthnasol i'r MCA a'r LPS. Mae'r Llywodraeth bellach wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac nid yw'n bwriadu gweithredu unrhyw newidiadau i'r rhyngwyneb rhwng yr MCA a'r MHA ar hyn o bryd.

Pennod 24: Beth yw'r ffyrdd gorau i ddatrys anghytundebau ac anghydfodau am faterion a gynhwysir gan y Ddeddf?

Crynodeb

- 2.33. Mae Pennod 24 yn edrych ar y ffyrdd amrywiol lle ceir anghydfodau dros penderfyniadau y gellir eu gwneud o dan yr MCA. Mae hyn yn cynnwys sut y gellir herio awdurdodiadau'r LPS. Mae'r bennod yn esbonio pwy sy'n gallu herio awdurdodiad LPS ac yn rhoi cyngor am geisiadau y gellir eu gwneud i'r Llys Gwarchod.

Diweddariadau a gynigir i'r canllawiau presennol:

- 2.34. Rydym wedi diweddarau'r disgrifiadau o eiriolwyr i adlewyrchu'u rôl o gynrychioli'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol yn well mewn anghytundeb (paragraff 24.6 i 24.9).
- 2.35. Rydym wedi egluro'r gwahaniaeth rhwng anghydfod am yr hyn sydd er y budd gorau i unigolyn a chwyn am ddarpariaeth gwasanaeth i unigolyn sydd â phrinder gallu (paragraff 24.17).
- 2.36. Rydym wedi crynhoi gwybodaeth, am ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am ofal neu driniaeth rhywun sydd â phrinder gallu, mewn tabl (paragraff 24.17).

- 2.37. Rydym wedi ychwanegu testun i nodi pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng defnyddio'r dulliau i ddatrys anghydfodau neu anghytundebau yn y bennod a gwneud cais i'r Llys Gwarchod pan y bo angen (paragraff 24.22).

Canllawiau newydd ar gyfer yr LPS

- 2.38. Mae'r LPS wedi'i lunio i sicrhau cydymffurfio ag Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – yr hawl i ryddid. Mae bod yn gallu herio proses yr LPS neu'r trefniadau'n drefniant diogelwch pwysig o hawliau'r unigolyn. Gall unrhyw un, gan gynnwys yr unigolyn, herio'r trefniadau a gynigir neu a awdurdodir ar unrhyw adeg.
- 2.39. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau i wneuthurwyr penderfyniad bennu p'un ai gwneud cais i'r Llys o ran naill ai adran 4B neu awdurdodiad LPS. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar hawliau dynol Erthygl 5 yr unigolyn a sut i benderfynu a ddylid gwneud cais i'r Llys, hyd yn oed os na fydd gan yr unigolyn ei hun y gallu i benderfynu a oes rhywbeth o'i le neu os na fydd yn dymuno gwneud cais. Mae'r Cod hefyd yn trafod ffyrdd eraill i ddatrys anghydfodau am broses yr LPS ac yn nodi y dylai fod gan Gyrrff Cyfrifol weithdrefn gwyno ar waith.

Cwestiwn

3. Gall unrhyw un, gan gynnwys yr unigolyn, herio'r trefniadau a gynigir neu a awdurdodir ar unrhyw gam o broses yr LPS (gan gynnwys trwy'r Llys Gwarchod a thrwy'r Corff Cyfrifol). Mae hwn yn fesur diogel pwysig iawn ym mhroses yr LPS. Pa mor eglur yw'r canllawiau ym mhennod 24 wrth egluro sut y gellir gwneud heriau sy'n ymwneud â'r LPS, gan gynnwys penderfynu pryd i wneud cais i'r Llys?

- A. Eglur iawn
- B. Eithaf eglur
- C. Ddim yn eglur nac yn aneglur
- Ch. Eithaf aneglur
- D. Aneglur iawn

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno. Er enghraifft, os bydd y canllawiau'n aneglur, amlinellwch pa newidiadau a fyddai'n helpu i egluro sut y gellir sôn am heriau sy'n ymwneud â'r LPS neu'r trefniadau, gan gynnwys penderfynu pryd i wneud cais i'r Llys (hyd at 300 gair).

Cwestiynau am ddiweddariadau i'r canllawiau presennol yng Nghod yr MCA

Mae cwestiynau 4 i 7 yn ymwneud â'r diweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yng Nghod presennol yr MCA. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r holl **ddiweddariadau a gynigir i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli yn y Cod** a restrir yn Adran 1 ac Adran 2, felly ystyriwch bob diweddariad wrth ateb. Yn gyffredinol, **nid** yw'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r LPS. Mae cwestiynau pellach ar y Cod cyfan yn Adran 5.

Cwestiynau

4. A yw egwyddorion yr MCA wedi'u hesbonio'n llawn yn y Cod diwygiedig?

Ydynt

Nac ydynt

Os ymateboch Nac ydynt, nodwch y paragraff perthnasol a'r hyn y credwch y dylai ei ddweud (hyd at 250 gair).

5. A oes angen ehangu neu adolygu unrhyw rai o'r diweddariadau i'r canllawiau presennol yn y Cod, fel y'u rhestrir yn Adran 1 ac Adran 2?

Oes

Nac oes

Os ymateboch Oes, nodwch y paragraff perthnasol, a'r hyn y credwch y dylai ei ddweud (hyd at 250 gair).

6. A fu unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol mewn cyfraith achos neu arfer nad yw'r Cod diwygiedig yn mynd i'r afael â hwy ond rydych yn teimlo bod angen iddo wneud hynny?

Bu

Na fu

Os ymateboch Bu, nodwch y paragraff perthnasol a'r hyn rydych yn meddwl sydd angen ei ychwanegu (hyd at 250 gair).

7. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diweddariadau a gynigir i'r canllawiau Cod presennol?

Oes

Nac oes

Os ymateboch Oes, nodwch y paragraff y mae eich sylwadau'n ymwneud ag ef, a'ch barn ar hyn (hyd at 500 gair).

3. Adran 3: Y penodau newydd sy'n cynnwys canllawiau'r LPS yn y Cod

Mae Adran 3 yn cynnwys penodau 12 i 20 y Cod. **Nid** yw'r penodau hyn yn bodoli yng nghod presennol yr MCA, ac maent yn cynnig canllawiau newydd am yr LPS yng Nghod newydd yr MCA a gynigir.

Mae Adran 3 yn cynnwys cwestiynau sy'n benodol i benodau cwestiynau 8 i 16 am ganllawiau newydd yr LPS, y gellir dod o hyd iddynt drwy'r adran gyfan. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y penderfyniadau polisi a wnaed wrth ddatblygu'r Cod. Nid oes gan bob pennod Cod gwestiwn cyfatebol. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r DHSC.

Pennod 12: Beth yw amddifadu o ryddid?

Crynodeb

- 3.1. Mae Pennod 12 yn cyflwyno ac yn esbonio'r hyn a olygir gan amddifadu o ryddid.
- 3.2. Gellir defnyddio'r LPS i awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn unig. Mae'r llysoedd wedi cadarnhau, mewn nifer o achosion, bod gan amddifadu o ryddid dair elfen:
 1. yr elfen wrthrychol: bod mewn lle cyfyngedig am gyfnod o amser nad yw'n ddibwys
 2. yr elfen oddrychol: nid yw'r unigolyn wedi cydsynio'n ddilys i'r cyfyngiad hwnnw, ac
 3. mae'r wladwriaeth yn gyfrifol am y cadw.
- 3.3. Y prif achos cyfreithiol domestig ar elfen wrthrychol amddifadu o ryddid yw penderfyniad yr Uchaf Lys a elwir yn Cheshire West. Mae'r bennod yn esbonio ystyr pob elfen a sut, pan y'u hystyrir gyda'i gilydd, y gallant ddangos a yw rhywun yn cael eu hamddifadu o ryddid.

Cwestiwn

8. Pa mor eglur yw'r canllawiau ym mhennod 12 wrth egluro ystyr amddifadu rhyddid i ymarferwyr?

- A. Eglur iawn
- B. Eithaf eglur
- C. Ddim yn eglur nac yn aneglur
- Ch. Eithaf aneglur
- D. Aneglur iawn

Pennod 13: Beth yw proses yr LPS yn gyffredinol?

Crynodeb

- 3.4. Mae Pennod 13 yn cynnwys y camau amrywiol ym mhroses yr LPS ac mae'n amlinellu'r gwahanol sefydliadau ac unigolion a all fod yn gysylltiedig. Nod y bennod hon yw rhoi canllawiau ymarferol a hygyrch i bawb sy'n gysylltiedig â phroses yr LPS. Mae'r bennod hefyd yn esbonio sut mae'r LPS yn integreiddio ag asesiadau a chynllunio iechyd a gofal eraill.
- 3.5. Mae'r bennod yn disgrifio rhai agweddau o'r LPS yn fras, oherwydd maent yn cael eu trafod yn fanylach mewn penodau eraill. Mae'n disgrifio agweddau eraill yr LPS, nad ydynt yn cael eu trafod mewn rhan arall, yn fanylach.

Amserlenni ym mhroses yr LPS

Cwestiwn

9. Mae'r Cod yn gosod disgwyliadau ynghylch pa mor hir y dylai prosesau LPS allweddol eu cymryd, er mwyn eu cwblhau. Yn benodol, mae'n nodi y dylid cwblhau awdurdodiad yr LPS cyn pen 21 niwrnod a bod gan Gyrff Cyfrifol 5 niwrnod i gydnabod atgyfeiriad allanol. Ydych chi'n meddwl bod yr amserlenni a nodir yn y Cod yn:

- A. Rhy hir
- B. Priodol
- C. Rhy fyr

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno (300 gair).

Rhyngwyneb gyda chynllunio iechyd a gofal arall

- 3.6. Nod y cod yw cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol i integreiddio proses yr LPS i asesiadau a chynllunio iechyd a gofal eraill, cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd gofal neu driniaeth yr unigolyn yn cael eu trefnu o dan fframwaith cyfreithiol gwahanol, gellir cynnal asesiadau ac adolygiadau'r LPS ar y cyd â phrif brosesau asesu neu adolygu iechyd neu ofal yr unigolyn. Bydd hyn yn helpu i osgoi ailadrodd asesiadau ac osgoi amddifadu o ryddid diangen.

Cwestiwn

10. Nod y Cod yw cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i integreiddio proses yr LPS i asesiadau a chynllunio iechyd a gofal eraill, cyn belled ag y bo modd. Pa mor eglur yw'r canllawiau ym mhennod 13 i esbonio'r rhyngwyneb rhwng yr LPS ac asesiadau a chynllunio iechyd a gofal eraill?

- A. Eglur iawn
- B. Eithaf eglur
- C. Ddim yn eglur nac yn aneglur
- Ch. Eithaf aneglur
- D. Aneglur iawn

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno (300 gair).

Awdurdodiadau, adolygiadau ac adnewyddiadau

- 3.7. Mae Pennod 13 hefyd yn cynnwys y broses ar gyfer awdurdodiadau, adolygiadau ac adnewyddiadau LPS. Y Corff Cyfrifol sy'n penderfynu ar fanylion y prosesau hyn a phwy sy'n gwneud y rolau hyn. Fodd bynnag, mae'r bennod hon yn nodi elfennau ymarferol y broses a fydd angen eu cyflawni.

Cwestiwn

11. A yw'r canllawiau ym mhennod 13 ar y prosesau awdurdodi, adolygu ac adnewyddu yn eglur?

- A. Eglur iawn
- B. Eithaf eglur
- C. Ddim yn eglur nac yn aneglur

Ch. Eithaf aneglur

D. Aneglur iawn

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno (300 gair).

Rôl rheolwr y cartref gofal

- 3.8. Fel y nodwyd yn wreiddiol, byddai rôl rheolwr cartref gofal yr LPS yn golygu mewn rhai achosion, y gallai rheolwyr cartref gofal wneud peth gwaith paratoi ar gyfer awdurdodiad, gan gynnwys comisiynu'r asesiadau ar gyfer rhywun yn eu cartref gofal. Yna, byddai'r Corff Cyfrifol yn adolygu'r ddogfennaeth berthnasol ac yn dilyn adolygiad cyn-awdurdodi, yn ystyried a ddylid rhoi awdurdodiad.
- 3.9. Mae'r Llywodraeth wedi clywed cynrychiolaethau o ar draws y sector, o blaid ac yn erbyn rôl y rheolwr cartref gofal yn yr MC(A)A. Dywedodd rhai rheolwyr cartref gofal wrth y DHSC na fyddai amser ganddynt i gyflawni'r rôl hon a dadleuodd eraill y byddai gwrthdaro buddiannau i reolwyr cartref gofal mewn achosion o'r fath. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried ei safbwynt yn ofalus iawn ac wedi penderfynu peidio â gweithredu'r agwedd hon o'r MC(A)A ar hyn o bryd.
- 3.10. Bydd staff sy'n gofalu am yr unigolyn bob dydd ac sy'n eu hadnabod orau, ynghyd â theulu a ffrindiau'r unigolyn, yn parhau â rôl hanfodol drwy gydol camau amrywiol proses yr LPS. Er enghraifft, dylid ymgynghori â nhw pan ystyrir awdurdodiad. Bydd y Llywodraeth yn cadw'r achos ar gyfer rôl y rheolwr cartref gofal o dan adolygiad wrth i'r LPS gael ei weithredu a'i sefydlu.

Cwestiwn

12. Mae'r llywodraeth wedi penderfynu peidio â gweithredu rôl rheolwr y cartref gofal yn yr LPS, ar ôl clywed ystod o bryderon a godwyd gan randdeiliaid am y rôl hon. Ydych chi'n cytuno na ddylid gweithredu rôl rheolwr y cartref gofal?

Ydw, rwy'n cytuno **na** ddylid ei weithredu

Nac ydw, rwy'n anghytuno

Pennod 14: Beth yw rôl y Corff Cyfrifol?

Crynodeb

- 3.11. Mae Pennod 14 yn disgrifio cyfrifoldebau Corff Cyfrifol ym mhroses yr LPS ac yn darparu gwybodaeth am sut i benderfynu pa sefydliad yw'r Corff Cyfrifol mewn gwahanol leoliadau. Mae hefyd yn nodi rôl y Corff Cyfrifol pan fo rhywun yn cael ei rhoi mewn trefniadau mewn ardal neu wlad arall o fewn y DU.

- 3.12. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol bennu p'un ai i awdurdodi trefniadau ar gyfer gofal neu driniaeth unigolyn pan fydd y trefniadau'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol hefyd drefnu'r asesiadau a chyflawni'r camau eraill sy'n arwain at y penderfyniad awdurdodi a pharhau i oruchwylio unrhyw drefniadau awdurdodedig.
- 3.13. O dan y DoLS, mae cartrefi gofal ac ysbytai'n gofyn am awdurdodiadau gan awdurdodau lleol i'w galluogi i amddifadu unigolyn o'u rhyddid. Fodd bynnag, o dan yr LPS, ynghyd ag awdurdodau lleol, bydd CCGau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr a byrddau iechyd lleol yng Nghymru hefyd yn gweithredu fel y Cyrff Cyfrifol. Bydd hyn yn helpu i symleiddio prosesau iechyd a gofal ar gyfer yr unigolyn, gan alluogi sefydliadau sy'n gyfrifol am ofal neu driniaeth yr unigolyn i oruchwylio proses yr LPS hefyd.

Pennod 15: Beth yw rôl y Person Priodol?

Crynodeb

- 3.14. Mae Pennod 15 yn esbonio rôl y Person Priodol fel a nodir yn yr MCA(A)A. Mae hefyd yn amlinellu pwy all fod yn Person Priodol, a rôl y Corff Cyfrifol wrth benodi Person Priodol.
- 3.15. Mae'r Person Priodol yn rôl wirfoddol, a gyflawnir fel arfer gan rywun sy'n agos at yr unigolyn. Pwrpas y rôl yw cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn o fewn proses yr LPS. Mae hon yn rôl allweddol er mwyn canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn am eu trefniadau iechyd a gofal a sicrhau bod yr unigolyn yn ganolbwynt i'r broses o wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw unigolyn yn addas i ymgymryd â'r rôl, yna bydd y Corff Cyfrifol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn penodi Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA).

Pennod 16: Beth yw'r Asesiadau a Phenderfyniadau ar gyfer yr LPS?

Crynodeb

- 3.16. Mae Pennod 16 yn esbonio'r tri asesiad y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn pennu a yw amodau'r awdurdodiad wedi'u bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- yr asesiad a phenderfyniad gallu ynghylch a oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i'r trefniadau,
 - yr asesiad a phenderfyniad meddygol ynghylch a oes gan yr unigolyn anhwylder iechyd meddwl, ac

- asesiad a phenderfyniad ynghylch a yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur mewn perthynas â thebygolrwydd a difrifoldeb niwed i'r unigolyn.

Diagnosis blaenorol ac asesiadau cyfwerth

- 3.17. Cyflwynodd yr MC(A)A asesiadau blaenorol a chyfwerth, y gellir eu defnyddio ym mhroses yr LPS os bydd yn rhesymol gwneud hynny. Mae asesiadau blaenorol yn asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer awdurdodiad LPS cynt. Mae asesiadau cyfwerth yn asesiadau a gynhaliwyd at unrhyw ddiben arall. Er enghraifft, mae asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer cynllun gofal eisoes ar waith ar gyfer yr unigolyn. Bydd hyn yn helpu i symleiddio'r broses a lleihau'r 'baich asesu' posibl ar yr unigolyn pan fo asesiadau addas eisoes yn bodoli.
- 3.18. Mewn achosion lle mae gan yr unigolyn eisoes asesiad gallu neu feddygol blaenorol neu gyfwerth, gellir defnyddio'r rhain at ddibenion yr LPS os bydd yn rhesymol dibynnu arno. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio asesiad a phenderfyniad blaenorol neu gyfwerth ar gyfer asesiad a phenderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd.

Cwestiwn

13. Mae'r Cod yn nodi y gellir defnyddio asesiadau blaenorol a chyfwerth ym mhroses yr LPS os bydd yn rhesymol gwneud hynny. Bydd hyn yn helpu i symleiddio'r broses a lleihau'r 'baich asesu' posibl ar yr unigolyn pan fydd asesiadau addas yn bodoli eisoes. Asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer awdurdodiad LPS cynharach yw asesiadau blaenorol. Asesiadau a gynhelir at unrhyw bwrpas arall yw asesiadau cyfwerth (er enghraifft, ar gyfer cynllun gofal).

Mewn achosion lle mae gan yr unigolyn allu neu asesiad meddygol blaenorol neu gyfwerth eisoes, gellir defnyddio'r rhain at ddibenion yr LPS os bydd yn rhesymol dibynnu arno. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio asesiad blaenorol neu asesiad cyfatebol ar gyfer asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur.

Pa mor eglur yw'r canllawiau ym mhennod 16 i esbonio'r defnydd o asesiadau blaenorol a chyfwerth at ddibenion yr LPS?

- A. Eglur iawn
- B. Eithaf eglur
- C. Ddim yn eglur nac yn aneglur
- Ch. Eithaf aneglur
- D. Aneglur iawn

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno. Er enghraifft, os bydd y canllawiau'n aneglur, amlinellwch pa newidiadau a fyddai'n helpu i esbonio'r defnydd o asesiadau blaenorol a chyfwerth at ddibenion yr LPS (300 gair).

Pennod 17: Beth yw Ymgynghoriad yr LPS?

Crynodeb

- 3.19. Mae Pennod 17 yn esbonio'r ymgynghoriad fel rhan o broses yr LPS. Mae'r canllawiau yn y Bennod hon yn esbonio sut i weithio â'r unigolyn orau. Mae'n seiliedig ar gyngor a mewnbwn gan bobl â phrofiad bywyd.
- 3.20. Lluniwyd yr LPS i gadw'r unigolyn yn ganolbwynt i'r broses gwneud penderfyniadau. Mae cam ymgynghori'r LPS yn hanfodol i hyn. Dylai gwneuthurwyr penderfyniadau ymgynghori â'r unigolyn a rhai eraill penodol, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol, i ganfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn mewn perthynas â'u trefniadau gofal a thriniaeth.
- 3.21. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gynnal yr ymgynghoriad yn ystod proses asesu awdurdodiad cychwynnol, pan fo amrywiad ar gyfer awdurdodiad yn cael ei ystyried, a phan fo awdurdodiad yn cael ei ystyried yn ystod y cam adnewyddu. Bydd Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol hefyd yn ymgynghori â'r unigolyn a rhai eraill pan fyddant yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi.

Pennod 18: Beth yw rôl y Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP)?

Crynodeb

- 3.22. Mae Pennod 18 yn trafod rôl y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP) fel a nodir yn yr MC(A)A, Mae'r bennod hon yn esbonio rôl yr AMCOP, yn argymhell model posibl ar gyfer gwasanaeth AMCP ac yn esbonio cyfrifoldebau awdurdodau lleol wrth gymeradwyo AMCPau a sicrhau argaeledd AMCP digonol ar gyfer eu hardal.
- 3.23. Mae AMCPau yn darparu haen ychwanegol o graffu a goruchwyliaeth uwch o broses yr LPS i bobl sydd ei angen fwyaf. Mewn rhai amgylchiadau, bydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi ac mae'n bosibl y byddant yn drafftio'r cofnod awdurdodi. Mewn rhai achosion, dylai AMCP hefyd gynnal yr adolygiad o'r trefniadau.

- 3.24. Mae'r bennod hon yn esbonio'r amgylchiadau y mae'n rhaid atgyfeirio achos at AMCP. Mae'n bosibl y bydd rhai achosion eraill yn cael eu atgyfeirio. Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid, mae'r bennod yn darparu rhai egwyddorion y dylai Cyrff Cyfrifol eu hystyried wrth benderfynu pa achosion eraill i'w cyfeirio. Mae'r bennod yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r mathau hyn o achosion.

Cwestiwn

14. I sicrhau annibyniaeth AMCPau, mae'r Cod yn darparu model a awgrymir ar gyfer tîm AMCP canolog. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r model, fel a nodir ym mhennod 18 y Cod?

Oes

Nac oes

Os dewisoch Oes, rhowch awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r model hwn (hyd at 300 gair).

Pennod 19: Beth yw Adran 4B, a sut mae'n cael ei defnyddio?

Crynodeb

- 3.25. Mae Pennod 19 yn rhoi canllawiau i wneuthurwyr penderfyniad am yr awdurdod cyfreithiol a ddarperir gan adran 4B yr MCA a'r amgylchiadau y gallai fod yn briodol i ddibynnu arno. Yn wahanol i'r DoLS, nid oes proses awdurdodi argyfwng o dan yr LPS, ac ni fydd rhaid i Gyrrff Cyfrifol wneud prosesau awdurdodi safonol ac argyfwng ar wahân.
- 3.26. Mae'r bennod yn darparu diffiniadau ac enghreifftiau o weithredoedd hanfodol a thriniaethau achub bywyd. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am bwy y dylid eu hysbysu pan y dibynnwyd ar adran 4B, a pha gofnodion y dylid eu cadw.

Cwestiwn

15. Os bodlonir yr amodau gofynnol, fel yr eglurir ym mhennod 19 y Cod, yna mae gan y gwneuthurwr penderfyniad y sail gyfreithiol i gymryd camau sy'n amddifadu unigolyn o'u rhyddid mewn amgylchiadau eithriadol i ddarparu triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol. Nid yw adran 4B yn bŵer 'parhaus', ac mae'n berthnasol yn unig i'r camau penodol hynny.

Mae'r Cod yn nodi y dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau hysbysu'r Corff Cyfrifol pan ddibynnir ar adran 4B am y tro cyntaf. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar yr adeg y gallai fod yn briodol i'r gwneuthurwr penderfyniadau hysbysu'r Corff Cyfrifol am achosion dilynol o'r pŵer yn cael ei ddibynnu arno. Er enghraifft, os bydd gan y gwneuthurwr penderfyniadau ddyletswydd gyfreithiol neu broffesiynol, neu'n dibynnu ar y pŵer nifer sylweddol o weithiau o fewn cyfnod byr.

Ydych chi'n cytuno â'r sefyllfa a nodir yn y Cod, neu a ydych yn credu y dylid hysbysu Cyrff Cyfrifol bob tro y dibynnir ar adran 4B?

- A. Rwy'n **cytuno**, ar ôl defnyddio adran 4B am y tro cyntaf, na ddylai fod yn rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau hysbysu'r Corff Cyfrifol bob tro y dibynnir ar adran 4B.
- B. Rwy'n **anghytuno** â'r Cod. Yn lle hynny, dylid hysbysu Cyrff Cyfrifol bob tro.

Pennod 20: Sut y monitir ac yr adroddir am system yr LPS?

Crynodeb

- 3.27. Mae Pennod 20 yn esbonio sut y monitir ac yr adroddir am yr LPS gan y cyrff perthnasol yn Lloegr a Chymru. Er mwyn rhoi sicrwydd bod yr LPS yn cael eu gweithredu'n gywir, mae'n bwysig bod system effeithiol ar gyfer monitro defnyddio'r mesurau diogelu.
- 3.28. Lluniwyd monitro ac adrodd am yr LPS a gynigir i symleiddio adrodd ac i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol yr LPS, er enghraifft, lleoliadau preifat a phobl ifanc 16 ac 17 oed.
- 3.29. Bydd prif agwedd goruchwyliaeth y wladwriaeth o dan LPS yn cael ei darparu gan Gyrrff Cyfrifol a fydd â'r cyfrifoldeb i graffu ar amddifadu o ryddid a'i awdurdodi. Fodd bynnag, mae cyfraith hawliau dynol rhyngwladol (y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Artaith) yn gofyn bod goruchwyliaeth annibynnol bellach ynghylch sut mae'r cynllun yn gweithredu. I fodloni'r rhwymedigaethau hyn yn Lloegr, mae'r dyluniad monitro ac adrodd a gynigir yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) a'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) i fonitro ac adrodd am weithredu'r LPS i oedolion a phobl ifanc sydd wedi'u hamddifadu o ryddid mewn unrhyw leoliad. Y CQC fydd yn gyfrifol am y rhai hynny dros 18 oed, tra bydd Ofsted yn gyfrifol am y rhai hynny sy'n 16 a 17 oed.
- 3.30. Bydd y CQC ac Ofsted yn gyfrifol am fonitro ac adrodd am weithredu'r LPS ym mhob lleoliad gan gynnwys lle nad oes gweithgarwch rheoledig yn cael ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys cartrefi preifat pobl (er na fydd y rhan fwyaf o awdurdodiadau'n berthnasol yn y lleoliadau hyn).

- 3.31. Mae'r pwerau y gellir eu rhoi i'r cyrff monitro mewn rheoliadau i ryddhau'r ddyletswydd hon yn gyfyngedig i'r rhai hynny a nodir yn yr MC(A)A. Mae'r dyluniad a gynigir yn darparu pwerau dewisol ar gyfer CQC ac Ofsted i ymweld â lleoliadau lle y mae awdurdodiadau'n berthnasol (gyda chaniatâd, oherwydd nad oes pŵer mynediad), cyfarfod â'r unigolyn y mae'r awdurdodiad yn berthnasol iddynt (gyda'u cydsyniad), cyfarfod ag unrhyw un sy'n gofalu amdanynt neu sy'n ymddiddori yn eu lles, a gofyn am gofnodion am yr amddifadu gan y Corff Cyfrifol neu'r lleoliad y mae'n berthnasol ynddo.
- 3.32. O dan reoliadau'r LPS, bydd gan Gyrff Cyfrifol ddyletswydd i ddarparu data hysbysu rheolaidd ar brosesau a cherrig milltir LPS allweddol, yn hytrach nag mewn amser go iawn (fel sy'n berthnasol i gartrefi gofal a hysbysiadau gan ysbytai, o dan y DoLS). Bydd hyn yn helpu i sicrhau cydymffurfio ehangach â dyletswyddau hysbysu (a fydd yn berthnasol i nifer llai o sefydliadau) a chysondeb hysbysiadau i'r CQC ac Ofsted. Bydd yn lleihau'r posibilrwydd o hysbysiadau niferus yn cael eu derbyn gan wahanol ddarparwyr. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai, o'i gymharu â'r DoLS.

Cwestiwn

16. I ba raddau y bydd pennod 20 a'r rheoliadau Monitro ac Adrodd yn sicrhau goruchwylio'r LPS yn effeithiol? Gweler Adran 4 i gael mwy o wybodaeth am y rheoliadau Monitro ac Adrodd.

- A. Goruchwyliaeth gwbl effeithiol o'r LPS
- B. Goruchwyliaeth eithaf effeithiol o'r LPS
- C. Goruchwyliaeth nad yw'n effeithiol nac yn aneffeithiol o'r LPS
- Ch. Goruchwyliaeth eithaf aneffeithiol o'r LPS
- E. Goruchwyliaeth gwbl aneffeithiol o'r LPS

Esboniwch eich ateb os byddwch yn dymuno (300 gair).

4. Adran 4: Rheoliadau'r LPS

Mae Adran 4 yn darparu gwybodaeth am reoliadau'r LPS sy'n berthnasol yn Lloegr a Chymru.

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2019 (Diwygiad) (Darpariaethau Cychwyn, Pontio ac Arbed)

- 4.1. Mae'r rheoliadau hyn yn cychwyn y darpariaethau o fewn Deddf Galluedd Meddyliol 2019 (Diwygiad), a fydd yn gweithredu'r LPS. Maent hefyd yn caniatáu i ddarpariaethau'r DoLS barhau i fod mewn grym am flwyddyn ar ôl eu gweithredu. Ni ellir rhoi unrhyw awdurdodiadau DoLS newydd ar ôl i'r LPS gael eu gweithredu, ond bydd y flwyddyn bontio'n caniatáu i'r rhai hynny o dan awdurdodiad DoLS sydd eisoes yn bodoli i gyrchu'r mesurau diogelu hynny tan bod eu hawdurdodiad yn dod i ben.

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2019 (Diwygiad) (Darpariaethau Canlyniadol)

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth arall sy'n cael ei heffeithio gan yr MC(A)A.

5. Adran 5: Rhoi'r Cod ar waith a gweithredu'r LPS

Mae Adran 5 yn cynnwys y Cod MCA cyfan a dogfennau a chwestiynau (cwestiynau 17 a 18) sy'n ymwneud â gweithredu'r LPS. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn o ddiddordeb arbennig i'r DHSC yn ogystal â'r MoJ.

Cynnwys a Strwythur y Cod

- 5.1. Mae'r Cod yn ddogfen hir sy'n cynnwys cyngor technegol am sut i ddefnyddio'r MCA, gan gynnwys yr LPS. Mae'n bwysig bod y ddogfen hon yn cynnwys yr holl ganllawiau allweddol ar gyfer ymarferwyr a staff sy'n gweithio yn system yr LPS yn ogystal â gofalwyr anffurfiol a'r unigolyn ei hun. Fodd bynnag, mae'r Cod a gyflwynir ar gyfer yr ymgynghoriad o hyd yn fersiwn ddrafft, ac rydym yn cydnabod y gallwn wneud rhagor i'w wneud yn hygyrch i wahanol gynulleidfaoedd. Felly, rydym yn croesawu sylwadau ar strwythur a chyflwyniad y ddogfen, yn ogystal â'r cynnwys technegol.
- 5.2. Rydym yn credu mai un o'r ffyrdd gorau i wella hygyrchedd yw drwy senarios achos. Nid yw penodau'r LPS fel y maent wedi'u drafftio yn cynnwys llawer o astudiaethau neu senarios achos. Rydym yn gweithio ar y rhain ar gyfer fersiwn terfynol y Cod, ac yn awyddus bod y rhain yn cael eu llywio gan enghreifftiau ac arfer bywyd go iawn, cymaint â phosibl. Felly, rydym yn croesawu sefyllfaoedd o'r sector i egluro pwyntiau yn y Cod.
- 5.3. Nod y cwestiynau canlynol yw gwella hygyrchedd a defnyddioldeb y Cod.

Cwestiynau

17. Bydd y Cod yn adnodd pwysig iawn a fydd yn cael ei ddefnyddio gan lawer o wahanol grwpiau o bobl i ddeall proses yr LPS. Er enghraifft:

- Bydd yn arbennig o bwysig y deallir pennod 3 (Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain?), pennod 15 (Beth yw rôl y Person Priodol?), a phennod 17 (Beth yw ymgynghoriad yr LPS?) y Cod gan yr **unigolyn a'u teulu a'u ffrindiau i sicrhau eu bod yn aros yn ganolbwynt i'r broses benderfynu.**

- Bydd pennod 3 (Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain?), pennod 10 (Beth yw Gwasanaeth yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol?), pennod 13 (Beth yw proses yr LPS yn gyffredinol?), Pennod 16 (Beth yw'r asesiadau a phenderfyniadau ar gyfer yr LPS?), pennod 17 (Beth yw ymgynghoriad yr LPS?), a phennod 18 (Beth yw rôl y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol?) yn arbennig o bwysig i **ymarferwyr a phobl sy'n ymwneud â gofal pobl**.
- Bydd angen i **bobl ifanc 16 a 17 oed, a'u rhieni a'u gofalwyr**, ddeall y canllawiau ym mhennod 13 (Beth yw proses yr LPS yn gyffredinol?) a phennod 21 (Sut y mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc?).
- Bydd angen i **gyrff cyfrifol, gan gynnwys awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a grwpiau comisiynu clinigol**, ddeall egwyddorion yr MCA a amlinellir ym mhennod 2 (Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu defnyddio?), gan fod egwyddorion yr MCA wedi'u hintegreiddio trwy gydol yr LPS. Bydd angen iddynt hefyd, yn benodol, ddeall y canllawiau ym mhennod 7 (Beth yw rôl y Llys Gwarchod?), pennod 10 (Beth yw gwasanaeth yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol?), pennod 13 (Beth yw proses yr LPS yn gyffredinol?), pennod 14 (Beth yw rôl y Corff Cyfrifol?), pennod 16 (Beth yw'r asesiadau a phenderfyniadau ar gyfer yr LPS?), a phennod 24 (Beth yw'r ffyrdd gorau i ddatrys anghytundebau ac anghydfodau am faterion a gynhwysir yn y Ddeddf?).

O'ch persbectif chi, pa mor eglur yw canllawiau'r LPS yn y Cod ac a oes unrhyw beth rydych yn teimlo sydd ar goll (hyd at 1,000 o eiriau)? Cyfeiriwch at grwpiau penodol o bobl a phenodau yn eich ymateb.

18. Byddem yn ddiolchgar am eich barn ynghylch a oes unrhyw ran o'r Cod lle mae angen diweddarau senario sy'n bodoli eisoes neu bod angen senario newydd neu enghraifft arfer gorau yn gyfan gwbl i helpu i egluro'r polisi. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn senarios ar gyfer y penodau canlynol:

- Pennod 2 - defnyddio egwyddorion yr MCA gan y gwasanaethau brys.
- Pennod 3 - arferion gorau ar gyfer cadw'r unigolyn fel canolbwynt proses benderfynu'r LPS.
- Penodau 4 a 5 - asesu gallu a/neu benderfyniadau budd gorau yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau diwylliannol sensitif.
- Pennod 7 - mae llys yn gwneud penderfyniad ynghylch cyswllt ar-lein neu ddefnydd cyfryngau cymdeithasol unigolyn.

- Pennod 8 - rhoi rhoddion o dan Atwrneiaeth Barhaus ar ran rhoddwr sydd â phrinder gallu perthnasol, gan ddangos yr ystyriaethau mwy cymhleth o ystyried amgylchiadau'r rhoddwr, eu dymuniadau ac a yw'r rhodd yn cael ei hystyried yn briodol o dan yr MCA.
- Pennod 17 - arferion gorau ar gyfer proses ymgynghori'r LPS.

A oes unrhyw ran o'r Cod lle mae angen diweddarau senario sy'n bodoli eisoes neu lle mae angen senario newydd neu enghraifft arfer gorau i helpu i egluro'r polisi?

Oes Nac oes

Oes, cofiwch gynnwys yma (hyd at 1000 o eiriau)

Gweithredu'r LPS

Mae'r adran hon yn esbonio ein cynlluniau gweithredu'n fanylach.

- 5.4. Mae gweithredu'r LPS yn rhaglen ddiwygio fawr a bydd yn golygu newidiadau mawr ar gyfer y system gofal iechyd a chymdeithasol, a'r bobl sy'n dibynnu arni. Disgwylir i randdeiliaid allweddol yn y system hon fabwysiadu rôl ragweithiol i sicrhau parodrwydd yn unol â'r rheoliadau, y Cod a chanllawiau gan y llywodraeth.
- 5.5. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector yn cael ei gefnogi a'i fod yn barod ar gyfer hyn. Yn benodol, bydd angen i gyrrff â dyletswyddau statudol i awdurdodi'r trefniadau (Cyrrff Cyfrifol) a darparwyr gofal sy'n ymwneud ag awdurdodiadau'r LPS ddeall y newidiadau y mae'r LPS yn eu cyflwyno yn ystod y cyfnod cyn y gweithredu. Mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn gael yr hyfforddiant a'r systemau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'u swyddogaethau'n effeithiol o dan yr LPS unwaith y mae'n mynd yn fyw. Rydym yn deall bod hwn yn faes cymhleth o gyfraith ac arfer, ac mae angen mwy er mwyn cefnogi gweithredu. Mae'r Cod yn cynnig canllawiau cynhwysfawr, statudol am LPS, ond credwn y bydd angen canllawiau pellach ar ffurfiau eraill. Bydd y DHSC a Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau pellach ac rydym yn cefnogi rhwydweithiau gweithredu a datblygu cynhyrchion hyfforddi cenedlaethol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.
- 5.6. Nid yw'r cynhyrchion gweithredu niferus wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg oherwydd mae Llywodraeth Cymru'n paratoi ei gynhyrchion ei hun a fydd yn benodol i Gymru.



© **Hawlfraint y goron 2021**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at ips.cop@dhsc.gov.uk